# Y DINESYDD

Gorffennaf / Awst 2019 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 439 £1

## DDOE

Rhai o ddisgylion cyntaf a chynnar Ysgol Bryntaf yn cyrraedd Tafwyl ar ddiwedd Gorymdaith i ddathlu addysg Gymraeg yn y brifddinas



Llun: Irfon Bennett

## A HEDDIW



Llun: Irfon Bennett


Llun: Irfon Bennett

Llu o blant Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd yn perfformio ar ddechrau'r Orymdaith

Eluned Morgan AC Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ac Alwyn Evans yn croesawu'r orymdaith

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Wyn Mears**

***Golygydd Medi***
***David Charles***

Cyfraniadau erbyn 27 Awst i:
david.charles10@btopenworld.com
20 Palace Aveunue, Llandaf,
Caerdydd.
07885 905318

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd

Llythyr gan Alwyn Evans - Trefnydd yr orymdaith i ddathlu 70 mlynedd o addysg Gymraeg yn y brifddinas.

*Annwyl Olygydd,*

Drwy eich colofnau a gawn ni ddiolch o galon i bawb a wnaeth Gorymdaith Ddathlu 70 mlynedd o Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd yn gymaint o lwyddiant. Bu Llinos Williams ac Aled Wyn Phillips, Menter Caerdydd, yn gynhorthwy mawr o'r cychwyn. Felly hefyd Ceri McEvoy a sicrhaodd gefnogaeth cyson RhAG. Bu Tim Pearce yn allweddol i gynllunio'r faner a flaenodd yr orymdaith, y bathodynnau ysgolion a'r taflenni a ddosbarthwyd gyda chefnogaeth ariannol Cronfa Glyndŵr.

Bu cyfraniadau ariannol hael gan gymaint o'r eglwysi rhyddion, a chymdeithasau a sefydliadau Cymraeg y ddinas, yn fodd i ni gyfarfod y costau niferus sy'n codi ar achlysur o'r fath. Rydym yn hynod ddiolchgar iddynt, ac am y rhodd gan un unigolyn penodol. Bu corau hefyd yn cefnogi, drwy weithredu fel stiwardiaid, a thrwy rwydweithio'n effeithiol gyda'r cyfryngau i sicrhau cyhoeddusrwydd hynod o eang. Roedd Cymru gyfan yn gwybod fod rhywbeth arbennig iawn yn digwydd yng Nghaerdydd.

Diolch i arweinydd Cyngor Caerdydd, Huw Thomas am gredu ynom, cynghorwyr Caerdydd a lobïodd i leihau ein costau gorfodol i'r awdurdod lleol, a staff digwyddiadau Dinas Caerdydd am eu cymorth parod a diffwdan. Bu Eluned Morgan A.C. yn hynod gefnogol i ni.

Ond uwchben pob dim, diolch i'r ysgolion Cymraeg. Eich prifathrawon chi awgrymodd yn gyntaf ein bod yn cyplysu'r orymdaith gyda Tafwyl, a chi'r ysgolion a sicrhaodd bresenoldeb eich disgyblion, staff, rhieni a rheolwyr i ffurfio'r orymdaith. Chi gynhyrchodd rai o'r uchafbwyntiau, yn y perfformiadau ar ddechrau'r orymdaith a'r diwedd. Hynny oll mewn blwyddyn hynod o brysur i ysgolion Cymraeg y ddinas, gan gyfrannu at greu rhywbeth a fydd yn byw yn hir yn y côf. Hebddoch chi, ni fyddai dim i'w ddathlu.

*Yn ddiffuant*

*Pwyllgor Cyn-ddisgyblion Ysgol Bryntaf*

*Ar ran Cymry Cymraeg y brifddinas a phawb sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg mae angen rhoi diolch o waelod calon i Alwyn Evans a'r pwyllgor.*

*Diolch yn fawr i chi i gyd.*

## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# 70 Mlynedd o Addysg Gymraeg yn y Brifddinas



*Y band jazz yn arwain y ffordd*

Wel wir, dyna oedd dathlu'r 70! Yr haul yn tywynnu, aelodau sioe disgyblion cynradd Eisteddfod yr Urdd yn wefreiddiol wrth ail-berfformio eu diweddglo eto i gynulleidfa bron cymaint â Chanolfan y Mileniwm. Yna, wedi gair gan arweinydd y Cyngor, Huw Thomas, i ffwrdd â ni wrth i gloch Neuadd y Ddinas daro deg. Roedd band Rhys Taylor yn ein harwain, yn chwarae hen ffefrynnau fel 'Moliannwn', a'r faner yn dwyn bathodynnau pob Ysgol Gymraeg, presennol a gorffennol, yng Nghaerdydd, yn nwylo dau o gyn-ddisgyblion gwreiddiol Ysgol Gymraeg Caerdydd, sef Iwan Guy a Rhodri Jones.

Gyda Simon a Judith Poulson a'u stiwardiaid yn ein tywys ymhlith siopwyr Heol y Frenhines, cododd y canu o sawl ysgol, gyda 'Calon Lân' a 'Glân Geriwbiaid' bob yn ail â 'Lawr ar Lan y Môr'.

Heibio'r Äes, a'n hunig ddamwain, gyda Sian E. Thomas, Urdd Sant Ioan, yn ymgeleddu ei chyd-gapelwraig Eirlys Pritchard Jones wedi i honno syrthio. Mwy o ganu heibio'r farchnad, gyda Phwll Coch yn uchel eu cloch. Y taflenwyr yn dosbarthu'r daflen noddwyd gan Gronfa Glyndŵr yn datgan hawl bob disgybl yng Nghaerdydd i dderbyn addysg Gymraeg, beth bynnag oedd iaith y cartref. Gorymdeithio yn ôl wedyn ger cerflun Aneurin Bevan cyn ail-gerdded hebio Neuadd y Ddinas a'r Llysoedd Barn a diweddu wrth borth y castell ym Mharc Biwt. Darganfod yno Cathy Jones, un o athrawesau cyntaf Ysgol Bryntaf, yng nghwmni Ann (Britton) Evans, un o'i disgyblion cynharaf, ynghyd â Gwilym Roberts, yn aros i gyd-gerdded gyda ni i mewn i'r castell; po hyna'r coesau, po fyrra'r orymdaith!

I mewn am union 11.00, ac i'r Llwyfan Ysgolion, am wledd eto. Yn gyntaf, parti llefaru Ysgol Plas Mawr yn adrodd cerdd Cyril Jones i ysgolion Caerdydd, gydag enwau pob ysgol newydd a agorwyd ers iddo ei hysgrifennu wedi eu cynnwys hefyd! Yna perfformiad cyntaf erioed cerddoriaeth gan Rhys Harries a geiriau gan blant ysgolion Coed-y-Gôf, Treganna, Y Creigiau, Gwaelod-y-Garth a Nant Ceubal, wedi eu trefnu gan Mei Gwynedd, a'u perfformio gan ddisgyblion yr ysgolion hynny. Roedd '(Ni yw) Plant y Wlad', yn llwyr fynegi afiaith a balchder plant ein hysgolion Cymraeg yn eu haddysg a'u hiaith. (Os na chlywsoch nhw, cewch eu clywed ar wefan Y Dinesydd yn fuan!)

Yna, y Gweinidog dros y Gymraeg Eluned Morgan yn ein croesawu ni i Tafwyl gydag araith bwrpasol a chryno. Cofiai ei dyddiau ysgol pan oedd cryn wrthwynebiad i ysgol Bryntaf yn ardal Mynachdy. Bryd hynny, dim ond pum plentyn o Elai, gan gynnwys hithau a fyddai'n mynychu'r ysgol Gymraeg. Bellach tyfodd y ffrwd gymaint nes sefydlu Ysgol Nant Caerau yno, ac mae tri llond bws yn teithio bob dydd o Elai am addysg Gymraeg.

Dyma atgofion ein pwyllgor cyn-ddisgyblion wedi'r orymdaith. Ann (Rees) Williams gyda lwmp yn ei gwddf a dagrau yn ei llygaid wedi'r croeso a dderbyniodd wrth adael carfan Bryntaf er mwyn cyd-gerdded gyda charfan ei hen ysgol, Mynydd Bychan. Alwyn Evans mor falch o weld cyn-ddisgyblion ysgol uwchradd Caerdydd, lle bu'n athro, sef Huw Jones a Huw Jenkins, ill dau bellach yn hynafgwyr parchus, yn sgwrsio a hel atgofion wrth gyd-gerdded gyda'u hen ysgol gynradd, Bryntaf. Lona (Daniel) Roberts yn cofio'i balchder wrth i ni sefyll gyda'n gilydd dan y faner, a meddwl mai "dyma lle roeddwn i am fod". Sian (Morgan) Thomas a Iolo Walters ill dau wedi rhyfeddu wrth edrych yn ôl o fynedfa Parc Biwt ar y fintai anferth gyda'u baneri, yn ymestyn yn ôl i'r Llysoedd Barn ac wedyn draw tu hwnt i Neuadd y Ddinas, a sylweddoli faint o bobl oedd yn gefn i ni.

A dyna ni, - roedd dros ddwy fil ohonoch wedi bod yn gefn i ni. Diolch.



***Cast y sioe gynradd a berfformiodd ar ddechrau'r orymdaith***

## Lansio deiseb dros ysgol Gymraeg ym Mhlasdŵr yng Nghaerdydd

Bu ymgyrchwyr yn lansio deiseb yng ngŵyl Tafwyl yn galw ar i Gyngor Caerdydd wneud yr ysgol gyntaf sy'n rhan o ddatblygiad tai newydd yng ngogledd-orllewin y ddinas yn un cyfrwng Cymraeg yn hytrach na dwyieithog.

Ym mis Ebrill eleni, ac yn groes i addewid Arweinydd Cyngor Caerdydd i agor ysgol benodedig Gymraeg fel rhan o'r datblygiad tai enfawr, cytunodd cabinet y cyngor i ymgynghori ar gynnig i agor ffrwd Saesneg o fewn yr ysgol gyntaf.

Mae datblygiad Plasdŵr yng ngogledd-orllewin y ddinas yn golygu adeiladu hyd at saith mil o dai dros y saith mlynedd nesaf. Yn yr ardaloedd hyn - Creigiau, Sain Fagan a Phentyrch - y mae rhai o'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y brifddinas, gyda bron i chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Mewn trydariad ym mis Medi'r llynedd, dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas "i fod yn glir - bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhan ganolog o ddatblygiad Plasdŵr." Fodd bynnag, ddiwedd yr wythnos diwethaf, penderfynodd cabinet Cyngor Caerdydd i ddechrau ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol gynradd ddwyieithog newydd fyddai'n cynnwys ffrwd Saesneg.

Dywedodd Mabli Siriol o Gymdeithas yr Iaith:

*"Rydyn ni'n cychwyn y ddeiseb er mwyn sicrhau bod Arweinydd y Cyngor yn cadw at ei air i agor ysgol cyfrwng Cymraeg, nid ysgol ddwyieithog. Roedden ni ar ddeall y byddai'r ysgol gyntaf yn un cyfrwng Cymraeg. Beth sydd wedi digwydd? Ydy'r Arweinydd wedi gwneud tro pedol er mwyn plesio'r rhai gwrth-Gymraeg o fewn y cabinet? Wrth ddathlu 70 mlynedd o addysg cyfrwng Cymraeg yn y brifddinas, dylai fod yn cadw at addewid er lles bywydau'r genhedlaeth nesaf."*

*"Ysgol benodedig Gymraeg sydd ei hangen os yw'r Cyngor o ddifrif am sicrhau ein bod ni'n cyrraedd miliwn o siaradwyr. Mae'n rhaid i Gaerdydd sicrhau cynnydd dramatig a chyflym yn nifer y disgyblion sy'n mynd i ysgol Gymraeg er mwyn sicrhau y caiff y targed ei gyrraedd.*

*"Mae agor ysgol newydd sbon ar gyfer y datblygiad tai yma yn cynnig cyfle euraidd i gynyddu'n gyflym y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Drwy beidio defnyddio'r cyfalaf sy'n dod gyda'r datblygiad tai anferth yma i agor ysgol cyfrwng Cymraeg benodedig, mae'r cyngor yn rhwystro twf y Gymraeg yn yr ardal a dyheadau'r rhan helaeth o bobl yr ardal i adfer y Gymraeg a gweld ein pobl ifanc yn dod yn rhugl yn yr iaith. Ar hyn o bryd, yn ôl ystadegau'r cyngor, mae mwy o blant oedran derbyn sydd eisiau lle mewn ysgol cyfrwng Cymraeg nag sydd o le iddyn nhw, ond mae llefydd dros ben mewn ysgolion Saesneg, beth yw'r synnwyr agor ffrwd Saesneg felly?"*



## Her yr Wyddfa er cof am newyddiadurwr a hanesydd Cymreig

Mae mab yn trefnu her yr Wyddfa i Macmillan er cof am ei dad, y newyddiadurwr a'r hanesydd Gwyn Griffiths, i ddiolch i'r elusen am gefnogi ei deulu. Bu farw'r awdur, y cyfieithydd a'r hanesydd arobryn Gwyn, a oedd yn byw ym Mhontypridd, ym mis Ebrill y llynedd yn 77 mlwydd oed ychydig fisoedd ar ôl cael diagnosis o ganser na allai gael ei wella.

Er cof amdano, mae Gildas, un o bedwar o blant Gwyn, yn trefnu sialens yr Wyddfa Gyda'r Nos ym mis Ebrill 2020, a dawns yng Ngwesty Copthorne Caerdydd ar 19 Mehefin 2020.

Bydd y ddau ddigwyddiad yn codi arian ar gyfer Cymorth Canser Macmillan.

Mae Gildas yn adeiladu tîm o gydweithwyr, teulu a ffrindiau i herio mynydd yr Wyddfa gyda'r nos ar 25 Ebrill y flwyddyn nesaf. "Roedd fy nhad yn ddyn ysbrydoledig, yn dad anhygoel, yn ŵr, yn hanesydd, yn newyddiadurwr ac yn gyswllt hanfodol rhwng Cymru a Llydaw."

"Darparodd Gymorth Canser Macmillan gefnogaeth emosiynol a chorfforol anhygoel yn ystod ei salwch."

Bydd y tîm sy'n cymryd rhan yn Yr Wyddfa Gyda'r Noson yn gallu mwynhau'r wawr ysblennydd pan fyddant wedi dringo copa uchaf Cymru.

Dywedodd Gildas, sy'n dad i ddau: "Mae'r digwyddiad wedi'i gynllunio i gael cydweithwyr, ffrindiau a theulu gyda'i gilydd a mwynhau'r golygfeydd ysblennydd yn Eryri, ond hefyd i gadw'n heini, colli ychydig o bwysau a gwella ein lles cyffredinol ac i dorri unrhyw dargedau codi arian blaenorol!"

Mae cynlluniau hefyd ar y gweill ar gyfer dawns i ddathlu her Yr Wyddfa Gyda'r Nos ac er cof am Gwyn. Mae Gildas yn chwilio am roddion ar gyfer raffl elusennol a gynhelir ar y noson.

Dywedodd Richard Pugh, Pennaeth Gwasanaethau (Cymru) ar gyfer Cymorth Canser Macmillan: "Hoffai pawb yn Macmillan ddiolch yn fawr iawn i Gildas a thîm Yr Wyddfa Gyda'r Nos am gymryd yr her hon i'n helpu i gefnogi pobl â chanser yng Nghymru.

"Gallwn ond ariannu ein gwasanaethau diolch i haelioni fel ei haelioni nhw ac rwy'n atgoffa unrhyw un sydd angen cefnogaeth, gwybodaeth neu sgwrs gyda Macmillan i'n ffonio yn rhad ac am ddim ar 0808 808 0000."

I gymryd rhan yn her Gildas, ewch i www.snowdonbynight20.com neu rhowch rodd yn www.justgiving.com/snowdonbynight

## Gair o werthfawrogiad

Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* ddiolch yn fawr i Gylch Cinio Cymraeg Caerdydd ac i'r Cymrodorion am eu rhoddion anrhydeddus a dderbyniwyd fis diwethaf.

Yn ystod y cyfnod adnewyddu tanysgrifiadau, mae nifer o unigolion hefyd, wedi cyfrannu'n hael. Diolch.

# CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

Yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, etholwyd y swyddogion canlynol.

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Bryan James |
| Is-Gadeirydd: | Gwilym Roberts |
| Trysorydd: | Huw Roberts |
| Ysgrifennydd Cofnodion: | Janet Wilde |
| Swyddog Tanysgrifiadau: | Ceri Morgan |
| Prif Ddosbarthwr: | Arthur Evans |
| Swyddog Hysbysebion: | Iestyn Davies |

Aelodau eraill o'r pwyllgor: Lowri Cooke, Eirian a Gwilym Dafydd, Falmai Griffitrhs, E. Wyn James, Huw Jones.
Daeth cyfnod Miranda Morton ar y pwyllgor i ben a diolchwn iddi am ei chefnogaeth yn y blynyddoedd diweddar. Bydd yn parhau i fod yn aelod o'r tîm golygyddol.

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Diolchiadau**

Mae cynnal a rhedeg y *Dinesydd*, fel pob papur bro arall, yn dibynnu ar ymroddiad nifer fawr o bobl – pob un â'i gyfraniad gwahanol, a phob un yn bwysig ac yn haeddu cydnabyddiaeth.

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i holl **aelodau'r pwyllgor** am eu brwdfrydedd cyson.

Yna hoffwn ddiolch i'r swyddogion yn unigol.

**Yr Is-Gadeirydd**, Gwilym Roberts, am ei gefnogaeth i mi'n bersonol drwy gydol y flwyddyn – bob amser yn barod i wrando a chynnig cyngor doeth.

**Y Trysorydd**, Huw Roberts, am y Cyfrifon Blynyddol ynghyd â'i waith manwl a'i gyngor gwerthfawr gydol y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd ail gyfrif banc er mwyn delio â'r tanysgrifiadau, a hefyd fe drefnwyd bancio ar-lein. Yn ogystal, mae ei golofn fisol, Gwylio'r Geiniog, yn boblogaidd.

**Ysgrifennydd**. Yn ystod y flwyddyn fe ymadawodd Joel D'Auria i weithio ym Mryste. Diolchwn iddo am ei waith brwd, gan ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd. Rydym yn falch o groesawu Janet Wilde yn aelod o'r pwyllgor i weithredu fel Ysgrifennydd Cofnodion.

**Swyddog Hysbysebion**. Mae hysbysebion yn ffynhonnell bwysig o incwm a diolch i Iestyn Davies am ei waith cyson drwy'r flwyddyn – ac yn enwedig ynglŷn â rhifyn arbennig Eisteddfod Caerdydd 2018.

**Prif Ddosbarthwr**. Yn ystod y flwyddyn bu Ceri Morgan yn gofalu am ddosbarthu'r *Dinesydd* – ond hefyd y tanysgrifiadau, ac mae diweddaru'r rhestr honno wedi golygu llawer o waith manwl. Arweiniodd hyn at rannu'r swydd yn ddwy – Swyddog Tanysgrifiadau a Swyddog Dosbarthu. Diolch i Ceri am barhau i ofalu am y tanysgrifiadau ac i Arthur Evans, aelod newydd o'r tîm, am gytuno i drefnu'r dosbarthu. Mae nifer o bobl eraill yn cynorthwyo gyda'r dosbarthu ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhain am eu cymwynas werthfawr. Yn ychwanegol, mae Dafydd Hampson-Jones (sydd eto yn aelod newydd o'r tîm) wedi ymgymryd â gofalu am ddosbarthu'r fersiwn ddigidol/ar-lein. Diolch Dafydd.

**Cysodydd**. Diolch i Eirian Dafydd am ei champwaith misol. Mae canmol mawr ar ddiwyg y *Dinesydd*, ac iddi hi y mae'r diolch am hynny. Elfen bwysig arall o'i gwaith yw'r cydweithio parod a hawdd gyda'r golygyddion.

Aelod pwysig o'r tîm, sy'n gweithio yn y cefndir, yw Penri Williams, Pentyrch. Fe fu'n gyfrifol am sefydlu gwefan www.dinesydd.cymru ac mae'n ei diweddaru'n gyson. Fe hefyd sy'n gyfrifol am lunio'r ddolen er mwyn anfon y *Dinesydd* ar-lein. Diolch Penri.

**Golygyddion.** Mae ffyniant y *Dinesydd* yn dibynnu'n llwyr ar frwdfrydedd y golygyddion ac, fel pwyllgor, mae ein dyled a'n diolch iddynt yn fawr iawn. Mae'r drefn o gael tîm o olygyddion, gyda golygydd gwahanol i bob rhifyn, yn gweithio'n dda. Mae modd cyfnewid mis os bydd galw. Yn ystod y flwyddyn fe ymadawodd Gwynn Matthews â'r tîm, ac mae diolch mawr yn ddyledus iddo am ei wasanaeth. Mae'n dal i gynnig ei gymorth fel golygydd 'wrth gefn' – fel y mae Sian Parry-Jones, ac mae hynny'n beth gwerthfawr. Cyn mynd, fe sicrhaodd Gwynn fod olynydd yn llanw'r bwlch, ac estynnwn groeso brwd i Wyn Mears, sydd wedi ymsefydlu'n hawdd a graenus.

Aelodau eraill y tîm golygyddol yw Eirian a Gwilym Dafydd, Bryan James, Ioan Kidd, Hefin Mathias, Miranda Morton, Eiry Palfrey, Clive Rowlands ac Alun Treharne.

Nodwn hefyd bod Sian Parry-Jones yn anfon neges atgoffa allan yn fisol i'r holl gyfranwyr cyson, ac mae hefyd wedi cytuno i fod yn 'ddolen' i dderbyn negeseuon sy'n dod i law trwy'r wefan. Gwerthfawrogir hyn yn fawr.

**Cyfranwyr.** Heb ddeunydd i'w olygu, wrth gwrs, fyddai dim angen golygyddion – a fyddai gyda ni ddim papur bro! Felly ar ran y pwyllgor, diolch i bawb sydd wedi cyfrannu'r holl amrywiaeth o ddeunydd diddorol yn ystod y flwyddyn.

Adroddiadau achlysurol a geir gan sefydliadau fel cymdeithasau a chlybiau, Mentrau Caerdydd a'r Fro, ysgolion, a chapeli ac eglwysi, etc. – a'r rhain sy'n rhoi'r elfen 'bro' yn y papur. Mae llawer o'r rhain wedi cyfrannu rhoddion ariannol hael, hefyd, a byddwn yn cydnabod hyn â diolch yn y *Dinesydd* o dro i dro. Mae'r gefnogaeth hon o gymorth mawr wrth i ni geisio cynnal a datblygu'r papur.

Mae llawer o'r deunydd yn ymddangos yn rheolaidd, ac o ystyried y rhain, teg yw honni bod y *Dinesydd* yn cynnig amrywiaeth eang o ddeunydd i'n darllenwyr. Yn fisol cawn ddwy golofn gan Lowri Cooke, Bwytai Merch y Ddinas a Cerdyn Post; y Croesair gan Rhian Williams; Pobol y Rhigwm dan ofal y Prifardd Emyr Davies; Cwmni'r Dysgwyr dan ofal Gwilym Dafydd; colofn Addysg Gymraeg gan Michael Jones, Gwylio'r Geiniog, cyngor amserol ar faterion ariannol, gan ein Trysorydd, Huw Roberts, a'r Digwyddiadur dan ofal E. Wyn James. Hefyd cafwyd hanesion difyr am ymweliadau Olwyn ap Gron yn ei gyfres Dyddiadur Deurodiwr Dŵad, ac mae'r gyfres Y Gymraeg yng Nghanol Caerdydd gan E. Wyn James, ar ran y Cymrodorion, yn gyfraniad gwerthfawr. Cyfres o deithiau o gwmpas y brifddinas yw hon, yn nodi mannau a ffeithiau o ddiddordeb arbennig. Mae'r teithiau hefyd ar gael, yn rhad ac am ddim, ar wefan y *Dinesydd*.

**Gwasg Morgannwg.** Mae diolch yn ddyledus i'r wasg am y graen sydd ar yr argraffu, a hefyd am y cydweithio parod bob amser.

**Llywodraeth Cymru**. Cydnabyddir â diolch y grant o £1,700 a dderbynnir yn flynyddol. Mae hyn yn hwb gwerthfawr.

**Darllenwyr a chefnogwyr.** Heb gefnogaeth ein tanysgrifwyr ffyddlon a'n darllenwyr cyson byddai'n amhosib cynnal ein papur bro – yr hynaf yn y wlad! (Ymddangosodd y rhifyn cyntaf yn Ebrill 1973.) Felly "**Diolch yn fawr i bawb sy'n ein cefnogi drwy brynu copi bob mis.**"

Yn y cyswllt yma, nodwn ein gwerthfawrogiad o gymwynas **y siopau lle gellir prynu'r *Dinesydd*.** Mae cael lle i'r cyhoedd weld a phrynu'r *Dinesydd* yn bwysig, felly diolch am y gefnogaeth hon.

Mae nifer o gwmnïau ac unigolion yn **hysbysebu** yn y *Dinesydd*. Mae hon yn ffynhonnell bwysig o incwm a gwerthfawrogir y gefnogaeth. Hyderwn fod ansawdd a chylchrediad y papur, gyda nifer fawr o ddilynwyr ar Trydar erbyn hyn, yn ei gwneud yn 'werth chweil' i bawb.

**Datblygiadau**

**Diwyg.** Ers i ni gael lliw llawn ar bob tudalen, mae'r *Dinesydd* wedi ei weddnewid – yn fwy deniadol i'r darllenwyr ac i hysbysebwyr. Yn hyn o beth cydnabyddir proffesiynoldeb Eirian fel cysodydd a chydweithrediad graenus Gwasg Morgannwg.

Mae cael y ffenest **Hanesion Diweddar ar y wefan** yn gaffaeliad. Mae'n fodd i roi sylw i eitemau nad oes lle iddynt yn rhifyn y mis, neu i eitemau sy'n cyrraedd wedi'r dyddiad cau. Mae tystiolaeth bod y cyfranwyr hynny yn fodlon ar y drefn.

**Rhifyn yr Eisteddfod.** Tipyn o fenter oedd cyhoeddi'r rhifyn arbennig hwn ac argraffu 5,000 o gopïau – i'w dosbarthu'n rhad ac am ddim! Ond bu'n llwyddiant ysgubol – yn ariannol ac o ran cyhoeddusrwydd i'r *Dinesydd*. Y wobr fawr yw bod y rhifyn swmpus hwn yn cael ei ystyried, bellach, yn gofnod pwysig o hanes diwylliannol Caerdydd a'r Fro – ac yn gyfrol i'w chadw a'i thrysori!

Sail y llwyddiant hwn oedd parodrwydd cymaint o bobl i gyfrannu at y cynnwys er mwyn adlewyrchu holl agweddau bywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg y Brifddinas a'r Fro. Wedyn, wrth gwrs, rhaid oedd cael tîm arbennig o olygyddion, yn cynnwys rhai gwirfoddolwyr ychwanegol i'r tîm golygyddol arferol. Cyflawnwyd y gwaith yn arbennig o effeithiol.

Os oedd y rhifyn i'w ddosbarthu'n rhad ac am ddim, rhaid oedd dod o hyd i ddigon o hysbysebwyr! Cafwyd ymateb gwych, a bu tîm arall o wirfoddolwyr – y tîm busnes – yn gofalu am y cyllid. Felly "Diolch" eto.

**Cyfryngau cymdeithasol**. Gwnaed ymdrech arbennig i lansio'r *Dinesydd* ar Trydar a Facebook i gydfynd â rhifyn yr Eisteddfod y llynedd. Ers hynny mae cyfrif Trydar wedi cyrraedd dros fil o ddilynwyr! Mae hyn yn ddatblygiad rhyfeddol – ac mae'r diolch pennaf yn ddyledus i Iestyn Davies a Gwilym Dafydd am eu gweithgaredd.

**Tafwyl.** Llogwyd pabell eto y llynedd a bu'n llwyddiant. Diolch i bawb am eu cymorth ac i Huw Jones am ofalu am y trefniadau. Gobeithio ailadrodd y llwyddiant eleni.

**Cyfarfod Blynyddol y Papurau Bro.** Diolch i Eirian a Gwilym Dafydd am gynrychioli'r *Dinesydd* yn y cyfarfod hwn yn Aberystwyth ac am adrodd yn ôl. Un elfen yn eu hadroddiad oedd bod y *Dinesydd* yn cymharu'n ddigon ffafriol gyda'r papurau bro eraill o ran diwyg a chynnwys a threfniant.

**Y nod** yw cynyddu nifer ein darllenwyr. Gyda'r holl filoedd o siaradwyr Cymraeg yn y brifddinas mae'n siwr bod modd ehangu ein cynulleidfa!


Mae arwyddion o adfywiad yn y Fro, a hynny trwy weithgaredd dygn un o'n golygyddion, Eiry Palfrey. Mae hi'n rhoi sylw arbennig i'r Fro yn y rhifyn y mae hi'n gyfrifol amdano.

Elfen arall a welodd gynnydd yn ystod y flwyddyn yw gweithgaredd y dysgwyr – nid yn unig o ran eu cyfraniadau i'r cynnwys, dan arweiniad Gwilym Dafydd, ond hefyd o ran eu defnydd o'r *Dinesydd* fel testun trafod.

Mae cynnydd bychan wedi bod yn y nifer sy'n derbyn y *Dinesydd* ar-lein. Am danysgrifiad o £10 am y flwyddyn, bydd y darllenydd yn derbyn y copi digidol cyn gynted ag y mae'n mynd i'r wasg! Gyda mwy o gyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth hwn, gobeithio y gwelir cynnydd pellach yn y dyfodol.

*Bryan James*

*Dymuna pwyllgor Y Dinesydd ddiolch o waelod calon i Bryan James, y cadeirydd am ei ymroddiad a'i waith di -flino i sicrhau llwyddaint ein papur bro.*




## Hirddydd haf ar lan Afon Taf

Lle mae dechrau crynhoi penwythnos hir, hwyliog ac arbennig iawn? Dyma ŵyl gymunedol i ddathlu’r iaith, celfyddydau a diwylliant Cymreig sydd bellach wedi sefydlu ei hun yn un o brif wyliau Cymru.

I’r rhai sy’n hoffi ystadegau, mae’r gynulleidfa fwyaf erioed o dros 20,000 ar y dydd Sadwrn yn unig yn gwneud pennawd da; ac mae ffigwr o 37,000 dros yr ŵyl gyfan yn dyst i apêl gynyddol yr amrywiol weithgareddau wrth i’r gynulleidfa gyrraedd o bob cwr o Gymru, a thu hwnt.

Am y tro cyntaf eleni agorwyd drysau Castell Caerdydd ar y nos Wener gyda’r prif lwyfan a’r ’Sgubor yn atseinio i gerddoriaeth gan rhai o’n artistiaid cyfoes mwyaf blaengar. Eleni hefyd cyflwynwyd sesiynau gomedi i bobl dros 16 a llond lle o chwerthin yng nghrombil un o adeiladau’r castell wrth i Carys Eleri, Hywel Pitts, Cabarela a Connie Orff fynd drwy eu pethau.

Mae’r ŵyl yn golygu rhywbeth gwahanol iawn i bawb. I rai, y llwyfannau perfformio gydag artistiaid amlycaf Cymru yw’r prif beth, i eraill y celfyddydau a’r paneli sy’n trafod pob math o bynciau cyfoes yw’r atyniad. Mae’r bwyd stryd o’r safon uchaf, y bariau, y chwaraeon, y stondinau crefft, a thros 30 o berfformiadau gan ysgolion a chylchoedd meithrin y brifddinas mor boblogaidd a chynhwysol ag erioed.

Uchafbwyntiau? Mae’n werth gwrando ar ‘Anfonaf gamel’ ar rifyn arbennig o ‘Talwrn y Beirdd’ a recordiwyd ar gyfer BBC Radio Cymru; braf oedd croesawu Sali Mali wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 50; roedd perfformiad Gwenno ar y nos Wener wedi codi’r ysbryd; y golygfeydd bisâr o gynulleidfa’n dawnsio yn y Disgo Distaw i gyfeiliant DJ newydd Cymru, Beti George; a’r ŵyl yn dod i ben gyda Caryl a’i band yn morio canu rhai o’i hanthemau mwyaf enwog.

Mae’r gwaith o werthuso’r ŵyl eleni eisoes wedi dechrau, ac fe groesawn unrhyw syniadau neu adborth gan ddarllenwyr *Y Dinesydd*, fydd yn gymorth mawr i dîm Menter Caerdydd wrth ddechrau cynllunio Tafwyl 2020.

*Aled Wyn Phillips*
*Prif Swyddog Tafwyl (cyfnod mamolaeth)*



## Gŵyl Ifan 2019 – Haul, hwyl a dawnsio!

Am unwaith cafodd Gŵyl Ifan ei bendithio â thywydd gwych, a dim golwg o ymbarél coch a gwyn yn unman! Daeth dawnswyr, cerddorion a chefnogwyr i’r ddinas o Fôn i Fynwy, a hyd yn oed o’r Amerig a Rwsia!! Do, roedd y dawnswyr Cymreig o Moscow wedi mwynhau eu hunain gymaint y llynedd ag iddynt ddychwelyd eto eleni.

Yn ôl yr arfer, ymgasglodd pawb yng nghyntedd yr Angel erbyn unarddeg, cyn cychwyn ar yr orymdaith, gyda’r pawl haf, drwy’r strydoedd i gyfeiliant offerynwyr amrywiol. Tipyn o gyfrifoldeb, a champ, yw cerdded ymysg y siopwyr ar fore Sadwrn yn cludo polyn sy’ bron yn 30 troedfedd o hyd, ond llwyddwyd! Wedi cyrraedd Neuadd y Ddinas yn saff fe’i codwyd ar y lawnt gyda’r rhubanau lliwgar yn cyhwfan a’r ceiliog yn edrych i lawr arnom. Wedi 43 mlynedd o brofiad, roedd e eto eleni’n sefyll yn unionsyth! Yna aed ymlaen i ddawnsio ar Stryd y Frenhines a gyferbyn â’r Castell, gan ddiddanu’r ciwiau hir oedd yn aros i fynd i Tafwyl! Roedd yn wledd i’r llygad i weld yr amrywiaeth yn y gwisgoedd, a’r ystod oedran - o fawr i fân yn cyd-ddawnsio. Wrth gwrs, yn y gwres, roedd hyn yn waith sychedig, felly rhaid oedd cael seibiant bach cyn ail ddechrau.

Wedi diwrnod llwyddiannus arall daeth y dydd i ben gyda’r Taplas arferol yn yr Angel - sef pryd o fwyd blasus, a’r gerddoriaeth yn denu’r dawnswyr i’r llawr, cyn ymuno â’r “ŵyl ymylol” (hwyrol) flynyddol a noswylio!

Gobeithio fod yr hen Ifan wedi’i blesio eto eleni.

Ymlaen â’r ddawns!

*Dai James*



# Ysgol Plasmawr

**Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019 – Llwyddiant Plasmawr**

'Roedd elfen werthfawr iawn ynglŷn ag Eisteddfod yr Urdd eleni. Y prif wahaniaeth oedd y ffaith taw nid llwyfan mewn pafiliwn yng nghanol cae yn nyfnderoedd Cymru oedd hon, ond llwyfan Canolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd. Pleser o'r mwyaf oedd gweld disgyblion Ysgol Plasmawr yn perfformio cystal ar y llwyfan honno ac o gwmpas y maes mewn rhagbrofion di-ri, a bu cryn dipyn o lwyddiant i'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro, 2019. Gyda thros 35 o gystadlaethau llwyfan yn cyrraedd y Genedlaethol, dyma oedd wythnos fwyaf llwyddiannus yr ysgol erioed.

Roedd stondin yr ysgol, a oedd yn cael ei rannu gydag ysgolion cynradd y clwstwr, yn brysur drwy'r wythnos ac roedd hi'n fraint noddi un o brif seremonïau'r Eisteddfod, Y Fedal Ddrama. Braf oedd gweld criw o ddisgyblion yn gwirfoddoli fel rhan o'r Criw Croeso ar y maes ac yn cystadlu gydag adrannau ac aelwyd tu hwnt i'r ysgol.

**Twiglets, Pwnsh a Buckaroo**

Dechreuodd yr wythnos gyda'r sioe Uwchradd *Twiglets, Pwnsh a Buckaroo* ac roedd nifer fawr o ddisgyblion (ac aelod o staff yr ysgol) yn rhan o'r sioe honno. 'Roedd hi'n sioe gyfoes ac ysgafn a oedd yn portreadu bywyd pobl ifanc yn y ddinas. O ddisgyblion blwyddyn 7 hyd at blwyddyn 13, roedd pob un aelod o'r cast wedi rhoi perfformiad safonol tu hwnt.

**Yr Oedfa**

Eleni, un o grwpiau'r ysgol, Digon, oedd yng ngofal yr Oedfa ar y dydd Sul. Trafodwyd pynciau cyfoes ac amserol a oedd yn berthnasol ac yn llawn gobaith, gan ddangos i weddill y genedl pa mor gynhwysol oedd yr Eisteddfod yng Nghaerdydd. Hyfryd oedd gweld côr iau yr ysgol yn perfformio fel rhan o'r Oedfa.

**Cystadlaethau Offerynnol**

Rhaid llongyfarch Lili Gainsbury, a ddaeth yn ail gyda'i hunawd chwythbrennau i flynyddoedd 7-9. Yn ogystal â chystadlaethau unigol, fe gystadlodd Madog Hammond, Dewi Thistlewood ac Iestyn Ellis yng nghystadleuaeth yr ensemble offerynnol i flynyddoedd 7-9, ac fe wnaeth nifer o ddisgyblion yr ysgol gystadlu fel rhan o'r gerddorfa dan arweiniad Mr Rhydian Lake.

**Cystadlaethau Canu**

Cyrhaeddodd nifer o gystadlaethau unigol a chorawl y llwyfan. Fe ddaeth y gân actol yn drydydd a daeth Lefi Jo hefyd yn drydydd ar yr unawd bechgyn 7-9. Daeth Lili Mohammad a Nansi Rhys Adams yn ail ar y ddeuawd a daeth y côr iau yn ail drwy ganu darn heriol iawn gan Brian Hughes, 'Y Ci Coch'. Roedd hi'n eisteddfod a hanner i Lili Mohammad a gipiodd y wobr gyntaf yn yr unawd sioe gerdd ac yn y ddeuawd sioe gerdd gyda Nansi Rhys Adams. Fe wnaeth Plasmawr gymryd y wobr gyntaf hefyd yn y gystadeuaeth parti bechgyn iau yn ogystal â'r parti bechgyn hŷn.

**Cystadlaethau Llefaru a Theatr**

Roedd llawer o lwyddiant gyda'r cystadlaethau llefaru a theatr. Daeth yr ymgom iau yn ail ac mi wnaeth y parti llefaru hŷn gipio'r wobr gyntaf gyda'u perfformiad dirdynnol o 'Gwenllian' gan Peredur Lynch. Mae ein diolch i'w hyffroddwraig, Mrs Rhiannon Evans, yn fawr.

**Cystadlaethau Dawns**

Derbyniodd ail grŵp dawns hip hop/stryd/disgo yr ysgol y drydedd safle, cafodd y ddawns aml gyfrwng yr ail safle. Mi gipiodd y grŵp dawnsio gwerin hŷn y wobr gyntaf. Yn ogystal, Morus Jones enillodd y ddawns werin unigol i fechgyn 7-9 a'i frawd hŷn Daniel Jones enillodd y ddawns werin unigol i fechgyn blwyddyn 10 ac o dan 25. O ganlyniad, mi fydd Daniel yn cystadlu yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel am yr ail dro eleni – llongyfarchiadau mawr iddo!

**Cystadlaethau Celf a Chrefft a Gwaith Cartref**

Rhaid llongyfarch Gruffydd Arfon o flwyddyn 9 a ddaeth yn ail yn y genedlaethol gyda'i waith creadigol 2D 7-9. Yn ogystal rhaid llongyfarch Manon Roberts a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth barddoniaeth i flynyddoedd 10-11. Hefyd, fe ddaeth Neve-Howells Aitkin ac Esme Morgan yn gyntaf yng nghystadleuaeth Mathemateg yr Urdd.

**Cyfraniad amhrisiadwy**

Doeddwn i'n methu ysgrifennu am lwyddiant yr ysgol heb gyfeirio at lwyddiant un unigolyn yn benodol sef Iestyn Gwyn Jones. Nid yn unig yr oedd yn rhan o'r criw croeso, yn brif gymeriad yn y sioe agoriadol, yn rhan o'r oedfa, yn aelod o'r grŵp dawnsio gwerin hŷn a'r parti bechgyn hŷn ac yn cystadlu gydag Adran Bro Tâf, cafodd Iestyn lwyddiant ysgubol gyda'i gystadlaethau unigol hefyd. Cafodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Stand-Yp yn ogystal â'r gystadleuaeth barddoniaeth i ddisgyblion dan 19 oed. Cafodd y drydedd wobr yn y gystadleuaeth Llefaru Unigol Blwyddyn 10 ac o dan 19, yng nghystadleuaeth Band/ Artist Unigol Blwyddyn 7-13, ac yng nghystadleuaeth Y Fedal Ddrama! Gan gofio bod Iestyn yn ddisgybl ym mlwyddyn 10, mae derbyn y drydedd wobr yn y fath gystadleuaeth yn dipyn o gamp i ddweud y lleiaf, ac mi oedd y beirniad Mared Swain yn llawn edmygedd o dalent y bachgen llewyrchus hwn. Mae dyfodol disglair iawn o flaen Iestyn Gwyn Jones!

A dyna ni, wythnos brysur tu hwnt i Ysgol Plasmawr yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019. Wythnos llawn atgofion a phrofiadau a fydd yn werthfawr i'r disgyblion yn y dyfodol. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.




*Y brodyr Jones*

# Ysgol Y Wern

**Llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

Cafodd yr ysgol lawer o lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro eleni. Cipiodd y canlynol y drydedd wobr sef yr Ymgom, Grŵp Celf Blwyddyn 3 a 4, Owen Frohawk (chwythbrennau) a Gwilym Macdonald (gitâr). Yn ogystal â hyn daeth y Parti Unsain yn ail a chipiodd Leisa Hughes (Blwyddyn 5) yr ail wobr am Gynnwys Digidol. Cafwyd perfformiadau arbennig gan bawb a chafwyd gwledd o ganu a llefaru gyda Blwyddyn 4 ar Lwyfan y Lanfa. Braf iawn hefyd oedd gweld nifer fawr o'n disgyblion yn rhan o gast y Sioe Gynradd 'Troi Heddiw yn Ddoe' yn Theatr Donald Gordon. Hoffai'r ysgol ddiolch hefyd i rieni am eu cefnogaeth i addurno'r ysgol i groesawu'r Eisteddfod. Cipiwyd yr ail wobr yn y gystadleuaeth.



*Tîm Y Cwis Llyfrau*

**Criw Mentrus**

Llongyfarchiadau mawr i'r Criw Mentrus! Aeth disgyblion o Fl.6 i Borthcawl i fynychu'r Rownd Derfynol Ranbarthol o'r gystadleuaeth hon. Roedd ei sgiliau trafod a dwyn perswâd wedi eu helpu'n fawr i gyrraedd y rownd derfynol Genedlaethol. Dymunwn bob lwc iddynt.

**Cwis llyfrau**

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm Cwis Llyfrau BL.3/4 a gipiodd y 3edd safle yn y gystadleuaeth Darllen Dros Gymru yn Aberystwyth. Buont yn cystadlu yn erbyn 18 ysgol dros Gymru gyfan. Da iawn blant.



# Ysgol Glantaf

**Mabolgampau**

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd diwrnod mabolgampau ym Mharc Lecwydd. Braf oedd gweld cymaint o'n disgyblion yn cystadlu ar nifer fawr o gampau. Roedd perfformiadau ein disgyblion ar y dydd yn arbennig iawn, ac roedd nifer o recordiau'r ysgol wedi'u torri. Llongyfarchiadau i lys Illtud ar ddod yn fuddugol gyda 1506 o bwyntiau, Dewi yn 2il gyda 1340 o bwyntiau, Dyfrig yn 3ydd gyda 1326 o bwyntiau a Theilo yn 4ydd gyda chyfanswm o 1100 o bwyntiau.

**Academi bêl-droed ar y gweill?**

Ar ôl tymor llwyddiannus i dimoedd pêl-droed yr Ysgol, cyrhaeddodd ein tîm Merched dan 13 a Bechgyn Blwyddyn 7 rownd derfynol Cwpan Cymru yng Nghroesoswallt. Ar ôl buddugoliaethau campus ar hyd y ffordd i'r gêm derfynol, yn anffodus, colli oedd hanes y Merched o drwch blewyn ar giciau o'r smotyn, ond llongyfarchiadau mawr iddynt am mai nhw yw'r 2il dîm gorau dan 13 yng Nghymru eleni! Ar yr un diwrnod, llwyddodd Bechgyn Blwyddyn 7 yn y gêm derfynol, wrth guro Ysgol Syr Hugh Owen o 3-0. Llongyfarchiadau mawr i chi fechgyn - PENCAMPWYR CYMRU!! Bythefnos yn ddiweddarach, fe lwyddodd y bechgyn unwaith eto i gipio'r gwpan yng nghystadleuaeth Caerdydd a'r Fro mewn gêm agos iawn (3-2) yn erbyn Ysgol Plasmawr. Mae ymroddiad a pherfformiad y ddwy garfan ers mis Medi'n haeddu'r ganmoliaeth uchaf. Da iawn, a phob lwc flwyddyn nesaf!

**Dathlu twf Addysg Gymraeg yn y Brifddinas.**

Anrhydedd fawr oedd bod yn un o ysgolion hynaf yr orymdaith i nodi 70 mlynedd o addysg Gymraeg yn y Brifddinas ar ddydd Sadwrn Tafwyl. Agorwyd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ym Medi 1978 â chant namyn un o ddisgyblion ar y gofrestr. Prifathro cyntaf yr ysgol oedd Mr J.E. Malcolm Thomas ac roedd tîm o ryw ddeg o athrawon yn ei gynorthwyo. Erbyn hyn, mae dros 1,300 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ac oddeutu trigain o athrawon. Roedd cynifer o orymdeithwyr ar fore Sadwrn yn adlewyrchiad pendant o lwyddiant addysg Gymraeg yn y Brifddinas. Mae'r ddinas bellach yn gartref i 17 o ysgolion cynradd a 3 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Braint fawr yw bod yn rhan o chwyldro Addysg Gymraeg y Brifddinas. Ymlaen â ni!




**Ffair Wyddoniaeth**

Fel rhan o'r diwrnod pontio gydag ysgolion cynradd dalgylch Ysgol Glantaf, cynhaliwyd Ffair Wyddoniaeth yn y neuadd fawr i arddangos gwaith Blwyddyn 8. Gweithiodd ein disgyblion yn ddiwyd mewn grwpiau dros yr wythnosau diwethaf yn cynllunio a chynnal arbrofion mewn paratoadau am y Ffair. Roedd yr arddangosfeydd o safon uchel iawn.

# Cymdeithas Edward Llwyd

Roedd ein teithiau yn ystod mis Mai yn cynnwys dwy yn sir Benfro a dwy yn y dwyrain pell. Cawsom ein sbwylio gan liwiau ffres a thywydd cynnes y gwanwyn. Yn sir Benfro roeddem yn cofio hen ddiwydiannau Saundersfoot a Stepaside. Taith o tua 6 milltir ar ddiwrnod braf.

Lwcus eto ar ein taith o gyrion Aberdaugleddau i Sandy Haven ac yn ôl trwy Herbrandson. Dim ond 13 o bobl oedd ar y traeth yn Sandy Haven a phob un yn aelod o'r gymdeithas!

Yn y dwyrain pell roeddem yn cerdded uwchben yr afon Wysg. Dechrau o Gas Gwent a chael llawer cyfle i edmygu'r afon yn troelli ar ei thaith i'r môr Hafren. Troi yn ôl wedyn a cherdded heibio'r trac rasio ceffylau a thrwy goed llawn clychau'r gog ac yn ôl at y dechrau.

Ardal Y Fenni wedyn ac edmygu perllan gymunedol o afalau cynhenid, eu blodau yn cyfleu gobaith o gynhaeaf da yn yr hydref. Aeth y daith ymlaen ar daith gylch gyda golygfeydd gwych i bob cyfeiriad.

Mae'r gymdeithas yn ymwybodol bod ein teithiau yn tueddu bod yn bell i ffwrdd i'r rhan fwyaf ohonoch chi. Mi ydan ni'n trio ein gorau i gael mwy o deithiau yn y canolbarth ond mae popeth yn dibynnu ar bwy sydd yn cynnig arwain taith. Sefyllfa debyg i'r iâr a'r wy os dach chi'n gwybod beth dw i'n meddwl. Mae adran y de o'r gymdeithas yn ymestyn at Fachynlleth a Chorris. Ond os dach chi'n hoffi cerdded, sgwrsio yn Gymraeg, dysgu am fyd natur a gwneud ffrindiau newydd, wel cymerwch fantais pan dy'n ni'n cerdded yn eich ardal. A byddech yn siŵr o alw i'n gweld ni ar ein stondin yn yr Eisteddfod.

Yma yn y de bydd ein teithiau ym mis Gorffennaf yn mynd â ni i ardal Llandeilo, Aberystwyth, Llanddunwyd a Phenrhyn Dale. Croeso i chi ymuno â ni, mae manylion llawn ar ein gwefan http://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddaur-de/

# Merched y Wawr Caerdydd

*Troeon Trwstan* oedd testun R. Alun Evans yng nghyfarfod 11 Mehefin. Fe ddenodd e a'i bwnc dyrfa fawr i gyfarfod olaf y tymor a chlywyd sawl stori a gododd chwerthin mawr. Dechreuodd y troeon trwstan yn Llanbrynmair yn ystod ei lencyndod. Wrth eu cyflwyno, gwelwyd dawn benigamp Alun, yr actor. Roedd straeon doniol ganddo o'i gyfnod yn fyfyriwr diwinyddol ym Mangor ac o'i ymweliad â chapel ym Môn. Cafodd brofiadau llawn dyndra wrth weithio ar ddarllediadau byw oedfaon Adran Grefydd y BBC. Chwerthin roedd y gynulleidfa ond, ar y pryd, a oedd Alun yn tynnu gwallt ei ben? Wrth sylwebu ar gemau pêl-droed ymhell ac agos, daeth ar draws cymeriadau brith ac angen hir amynedd i ddygymod â nhw. Bu'n gweithio ar y rhaglen deledu *Heddiw* gan dynnu sylw at y modd y mae'n hawdd i holwr faglu a chwympo i drybini. Diolchwyd yn wresog i Alun am noson ardderchog.

Llongyfarchiadau MAWR i Penny Hughes ar ennill y wobr gyntaf yn yr Ŵyl Haf Genedlaethol ar Eitem o Grosio. Dangosodd ei chwrlid dwbl, un hardd godidog, ac ôl oriau o waith manwl arno. Mae gan Penny ddawn arbennig.

Diolchwyd i swyddogion y gangen, Rhiannon, Mair, Heulwen a Glenys am drefnu blwyddyn i'w chofio.



*Cwrlid Penny Hughes*

# Merched y Wawr Bro Radur

Cawsom ddiweddglo da i raglen y flwyddyn drwy fynd allan am ginio canol dydd yn 'The Orchard', Radur. Y nod oedd ymlacio, sgwrsio a mwynhau ac yn bendant cafwyd cyfle i wneud hynny! Yn y cyfarfod blynyddol etholwyd y swyddogion canlynol: Llywydd, Elsbeth Edwards; Is-lywydd, Shirley Williams; Ysgrifennydd, Ruth Davies; Is-ysgrifennydd, Heulwen Jones; Trysorydd, Lynwen Lewis; Is-drysorydd, Ann Lewis. Dymunwn yn dda i swyddogion a phwyllgor y gangen wrth iddynt fynd ati i drefnu rhaglen ar gyfer y tymor nesaf.

Bydd cyfarfod cyntaf y gangen ar Nos Fercher, 11eg o Fedi – sylwch ar y newid dyddiad os gwelwch yn dda. Am 7.30 o'r gloch fydd y cyfarfod yn dechrau ac yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur. Bydd Parti'r Efail yno i'n difyrru ac edrychwn ymlaen yn fawr i noson ddifyr a hwyliog yn eu cwmni.

Cawn gyfle i ymaelodi ar y noson ac mae croeso mawr i aelodau newydd i ymuno â'r gangen.

## Cangen newydd o Ferched y Wawr i Gaerdydd

Yn dilyn llwyddiant pwyllgorau apêl lleol Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 i greu gweithgarwch a chyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, cafodd criw bychan ohonom y syniad o sefydlu cangen o Ferched y Wawr yn ardal Yr Eglwys Newydd, Rhiwbeina, Llwynfedw, Ystum Taf a Llandaf. Mae dwy gangen lwyddiannus eisoes yn bodoli yn y ddinas, sef Merched y Wawr Bro Radur a Merched y Wawr Caerdydd, ac ymdrech oedd hon i gynnig cyfle i ymuno â'r mudiad yn y rhan hon o'r ddinas.

Ar nos Fawrth 2 Mai daeth tua 20 ohonom at ein gilydd er mwyn trafod y posibilrwydd o sefydlu'r gangen. Cafwyd derbyniad gwresog i'r syniad a phenderfynwyd bwrw 'mlaen â'r fenter. Byddwn yn cyfarfod yn Eglwys Fethodistaidd Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 ar y trydydd nos Iau yn y mis. Cynhelir y cyfarfod cyntaf nos Iau 19 Medi 2019 pryd y cawn noson hwyliog yng nghwmni'r Gerddorfa Ukelele yn ogystal â chyfle i drafod enw i'r gangen newydd. Dewch â'ch syniadau!

Mae croeso cynnes i aelodau newydd a hen ymuno â ni, ac os ydych am fwy o wybodaeth cysylltwch â Heulwen Jones ar 07779 360614 neu heulwen@btinternet.com



# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Noson o Frethyn Cartref gafwyd ar 17 Mehefin a hynny'n dilyn y cyfarfod blynyddol dan lywyddiaeth Falmai Griffiths. Tri o selogion y gymdeithas fu'n annerch ar bynciau tra gwahanol gan lwyddo i roi noson ddiddorol ac amrywiol.

Bu Mair a Dyfri Jones yn briod am 57 o flynyddoedd a llwy serch fyddai'n nodi pob pen-blwydd eu priodas. Mae ganddi gasgliad helaeth a daeth ag amrywiaeth i'w dangos. Roeddynt yn cynnwys y symbolau traddodiadol - calon, cadwyn, allwedd, peli, olwyn, cwlwm, angor - o wahanol bren ac wedi'u saernïo'n gywrain. Roedd rhai wedi'u haddurno i gyfleu cariad at Gymru ac eraill ag ysgrifen gerfiedig yn disgrifio cariad.



*Mair, Gwilym a Gwenda*

Merch o Frynaman, Y Gwter Fawr, yw Gwenda Morgan, a chafwyd ganddi ddisgrifiad byw o ardal ei hieuenctid. Roedd ganddi stôr o hanesion difyr a doniol ac enghreifftiau o hiwmor ffraeth y trigolion. Un o'r rheiny oedd y bardd Gwydderig ac adroddodd ei englyn enwog ar y testun, *Dim*:

> Hen hosan a'i choes yn eisie, – ei brig
> heb erioed ei ddechre,
> a'i throed heb bwyth o'r ede –
> hynny yw 'Dim', onid e?

Arferai hanner cant o siopau ddiwallu anghenion y fro. Un *take away* sydd yno bellach.

Gan Gwilym Roberts cafwyd hanes diddorol sefydlu Cylch Meithrin Rhiwbeina drigain mlynedd yn ôl. Bro-garwr a chenedlgarwr heb ei ail yw Gwilym a'i fryd ar hybu Cymreictod. Da oedd ei glywed yn sôn am y rhai gynt a fu'n gydweithwyr iddo ac am athrawon cyntaf y Cylch Meithrin, Bethan Roberts a Sally Hughes. Dangoswyd diddordeb mawr yn y lluniau oedd ganddo ac yn y platiau dathlu.

Yr elusen Llamau sydd yn elwa o gronfa'r Gymdeithas eleni. Elusen 2019/20 fydd Cronfa Cyfle i Bawb, yr Urdd.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn 1992 cefais gyfle i lunio set o bedwar poster dan y teitl Gwyddonwyr Cymru. Gwnaed hyn gyda nawdd gan Y Swyddfa Gymreig (fel yr oedd ar y pryd). Roeddwn yn ffodus iawn i gael cymorth rhadlon ac arbenigedd diogel Huw Roberts oedd ar staff Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Anfonwyd set i bob ysgol a choleg yng Nghymru. Un o'r gwyddonwyr a nodir yw'r Athro Robin Williams. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Llanuwchllyn ac Ysgol Uwchradd y Berwyn, Y Bala.

Aeth ymlaen i ddilyn cwrs Ffiseg yn y brifysgol ym Mangor ac oddi yno i yrfa ddisglair mewn ymchwil ar Ffiseg y cyflwr solet. Bu'n Athro Ffiseg ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Is-ganghellor ar Brifysgol Abertawe (1994-2003). Wedi 'ymddeol' bu'n ddiwyd mewn sawl gweithgaredd - bwrw ymlaen gyda'i faes ymchwil, gwasanaethu ar sawl corff yn ymwneud ag addysg uwch, nid yn lleiaf Coleg Cenedlaethol Cymru, cefnogi ymgyrchoedd yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn ddiweddar (Mehefin 8) cyhoeddwyd ei fod wedi'i anrhydeddu'n farchog. Wrth ei longyfarch dymunwn yn dda iddo gyda'i amrywiol ddiddordebau ac ymrwymiadau.

Yn 2010 cefais gyfle pellach i lunio set o bedwar poster dan y teitl Gwyddonwyr Cymru. Gwnaed hyn gyda nawdd gan Lywodraeth Cymru. Fel yn 1992, bu cefnogaeth a phrofiad Huw Roberts (wedi ymddeol erbyn hyn) yn gymorth hawdd ei gael. Anfonwyd set i bob ysgol a choleg yng Nghymru. Un o'r gwyddonwyr a nodir yw'r Athro Richard Parry-Jones. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Glanadda ac Ysgol Uwchradd Friars, Bangor.

Aeth ymlaen i ddilyn cwrs peirianneg ym Mhrifysgol Salford ac yna i ddilyn gyrfa ddisglair iawn gyda Chwmni Modur Ford. Ar ddiwedd ei yrfa ffurfiol roedd yn Gyfarwyddwr Ymchwil a Datblygiad y cwmni ar draws y byd. Ni fu'n segur a daliodd gyda'i ymchwil i ddylunio moduron, yn benodol yn yr ymdrechion i greu ceir carbon-isel.

Yn ddiweddar iawn daeth y newyddion mai Richard Parry-Jones yw cadeirydd y tasglu fydd yn ceisio cynlluniau arloesol i gynnal staff cwmni Ford ym Mhenybont-ar-Ogwr, yn dilyn y cyhoeddiad bod y safle i gau yn 2020. Dymunwn yn dda iawn iddo yn ei ymdrechion.

Hanner can mlynedd yn ôl cymerodd Neil Armstrong gam bychan. I ble? Pa ddyddiad? Ble roeddech chi?

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Yng nghyfarfod blynyddol y Cylch Cinio ym mis Mai, etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2019-2020:

| | |
|---|---|
| Llywydd | Yr Athro Thomas Watkin |
| Is-lywydd | Gwynn Angell Jones |
| Ysgrifennydd | Sian Dowling |
| Is-ysgrifennydd | Pauline Morgan |
| Trysorydd | Alwyn Evans |
| Is-drysorydd | Bryn Evans |

Edrychwn ymlaen i gyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Lun, 7fed Hydref, a hynny mewn lleoliad newydd, sef 'Cathedral 73', yn rhif 73 Heol y Gadeirlan. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

# Cwmni'r Dysgwyr

## Gair gan Matt Spry Dysgwr y Flwyddyn

### Cymraeg yn eich ardal chi

Erbyn i chi ddarllen yr erthygl hon bydda i wedi symud tŷ o Waunadda i Bontcanna! Do'n i ddim yn bwriadu symud ond mae'r *landlady* yn gwerthu'r tŷ a nawr dw i wrth fy modd achos bydda i'n gallu defnyddio mwy o Gymraeg yn y gymuned. Bydda i'n rhannu'r tŷ gyda siaradwr iaith gyntaf hefyd sy'n golygu fy mod i'n gallu byw y rhan fwyaf o fy mywyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cryn nifer o ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn Waunadda a Sblot ond dw i'n poeni am ddyfodol yr iaith yn yr ardal ac yn nwyrain Caerdydd fel iaith y gymuned. Dw i wedi trefnu cyfarfod bob nos Fercher yn y caffi Eritreaidd ar Fforddlydan ac fel arfer mae 6 i 8 o bobl yn dod ond dw i'n gwybod bod llawer mwy o siaradwyr/dysgwyr yn byw yn yr ardal.

Dw i ddim wedi clywed am unrhyw beth arall yn nwyrain y ddinas ond rhaid bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn Nhredelerch, Llanedern, Llanrhymni, Llaneirwg, ayb.

Mae llawer o gyfleodd i ddefnyddio Cymraeg yng ngorllewin Caerdydd, yng Ngogledd Caerdydd ac yng nghanol y ddinas sy'n wych. Ond beth am y dwyrain? Oes rhaid i bobl sy'n byw yn y dwyrain fynd i ardal arall er mwyn defnyddio eu Cymraeg? Er mwyn i'r iaith dyfu yn nwyrain Caerdydd rhaid i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg drefnu pethau – cyfarfodydd, boreau coffi, ffeiriau cymunedol, ayb. Hefyd mae'n rhaid i siaradwyr a dysgwyr gefnogi pethau a'u mynychu nhw. Bydd hyn yn golygu bod siaradwyr a dysgwyr yn dod i nabod ei gilydd sy'n golygu eu bod nhw'n gallu dechrau defnyddio Cymraeg yr y strydoedd, yn y caffis, yn y tafarnau, ayb. Bydd hyn yn normaleiddio Cymraeg yn cael ei siarad a'i chlywed yn yr ardal a gobeithio sbarduno diddordeb ymysg pobl eraill.

Felly wrth i fi adael y dwyrain a symud i ardal sy'n nodedig am ei Chymraeg mae gen i her i'r rheiny ohonoch chi sy'n byw mewn ardal sy ddim yn nodedig am ei Chymraeg – beth am ddechrau rhywbeth yn eich ardal chi? Hefyd os dych chi'n clywed am rywbeth yn eich ardal beth am gefnogi'r peth? Dw i'n siwr y cewch chi eich siomi ar y ochr orau!

*Diolch yn fawr i Matt am ei gyfraniadau misol yn ystod ei dymor fel Dysgwr y Flwyddyn. Ydych chi'n cytuno gyda Matt? Croeso i chi anfon gair i eirianagwilym@gmail.com erbyn 27 Awst. Pob hwyl a llwyddiant i Matt wrth astudio Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd o fis Medi ymlaen.*

## Arholiad Canolradd Cymraeg i Oedolion

Ym mis Mehefin, cymerais i arholiad Cymraeg i Oedolion, safon Canolradd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dros y blynyddoedd dwi wedi cymryd Wlpan, ysgolion Sadwrn, cyrsiau preswyl ac ati, ond mae fy hyder wedi tyfu ers ymuno â grwpiau sgwrsio, ac nawr dwi'n gallu siarad Cymraeg gyda chamgymeriadau.

Ro'n i'n poeni am fod yr arholiad yn cymryd marciau am wallau gramadegol, ond yn anffodus treuliais i fwy o amser yn poeni na'i ddysgu.

Cawsom arholiadau darllen, ysgrifennu a gwrando drwy'r bore, yna cawsom 20 munud o brawf llafar, gan gynnwys pwnc i'w drafod a chwestiynau cyffredinol.

Ceisiais arddangos fy ystod o sgiliau iaith, ond anghofiais i a defnyddiais i Wenglish!

Roedd yna gymysgedd eang o fyfyrwyr yno, felly meddyliwch amdanom y mis nesaf pan fyddwn ni'n cael ein canlyniadau.

***Jackie Aplin***

## Y Dinesydd yn Florida

Sheridan Morgan ydw i. Dw i'n byw ym Mrynna ger Pencoed a dw i wedi dysgu Cymraeg hyd at lefel uwch. Dyma fy ail dro yn *Y Dinesydd* – dw i bron mor enwog â Gwilym Dafydd!

Ta beth, fel dysgwr chi'n gwybod yn iawn y pwysigrwydd i sicrhau eich bod chi'n mynd â digon o ddeunydd darllen ar eich gwyliau er mwyn cael a chadw eich Cymraeg. Felly, ar fy ngwyliau yn Orlando, Florida eleni rhifyn diweddaraf y Dinesydd oedd y peth cyntaf i fynd yn fy nghês dillad.

'Bwrw hen wragedd a ffyn' oedd yr hanes pan gyrhaeddon ni maes awyr Sanford, ac mae rhaid i fi gyfaddef roedd tipyn o her yn gyrru trwy'r storm mewn cerbyd anghyfarwydd, gydag olwyn llywio ar y chwith a 'sat nav o uffern' yn camymddwyn. Ond cyrhaeddon ni y gwesty yn hwyr ond yn ddiogel yn y pen draw. Trannoeth, newidiodd y tywydd yn llwyr, a chododd y tymheredd i 30 gradd yn rheolaidd ar gyfer gweddill y pythefnos - nefoedd.

Cawson ni amser da yn ymweld â pharciau thema, parciau dŵr, a thorheulo wrth y pwll nofio neu ar draeth Daytona (roedd y dŵr pen arall Môr yr Iwerydd yn dwym gyda llaw!). Un diwrnod, aethon ni i 'Wild Florida' i weld yr aligators a chael reid fach ar gwch gwyntyll trwy'r gors. Ges i syndod gweld gwartheg yn pori yno heb bryderu, ond yn ôl y tywysydd, mae gwartheg yn rhy fawr achos mae'n well gan aligators lyncu pethau bach yn hollol gyfan. Doedd fy mhlant ddim yn gwenu pan soniodd am hynny.

Ond os ydych chi'n mynd i Florida mae'n werth ymweld â Chanolfan Gofod John F. Kennedy. Mae hanes y lle yn fendigedig, gyda'r space shuttle Atlantis a roced Saturn 5 (a gafodd ei ddefnyddio i lansio pob taith Apollo) ymhlith y casgliad o atyniadau sydd yno.

## Amser Jôc gyda Huw James - Cymro ar Ynys Anghyfannedd

Roedd Twm ar fwrdd llong a suddodd. Cafodd ei hunan ar ynys anghyfannedd. Roedd yno am ddeng mlynedd nes i long arall ddod i'w achub e. Dangosodd i fois y llong yr adeiladau roedd e wedi adeiladu. Roedd yr un o'i dŷ wedi ei wneud o ddail banana.

Roedd hefyd dau adeilad wedi eu gwneud o ddail banana – un gyda thŵr a'r llall gyda *spire*.

"Beth ydyn nhw?" gofynnon nhw.
"Eglwysi," atebodd.
"Ond pam dwy eglwys?"
"Wel," atebodd e yn pwyntio at un, "Dyma'r un dw i'n mynd iddi " ac ychwanegodd e yn rymus "dyna'r un dw i ddim yn mynd iddi."

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EBENESER

**Llongyfarchiadau...**

...i Esyllt Jones ar dderbyn swydd fel athrawes yn Ysgol Bro Teyrnon, ger Casnewydd. Bydd Esyllt yn dechrau ar ei swydd newydd fis Medi.
...i Robin Powell-Davies sydd wedi cael swydd fel athro Mathemateg yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug. Fe fydd Robin yn dechrau yn ei swydd newydd fis Medi.

...i Gwilym Tudur ar ennill gradd BA mewn Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Rhydychen. Derbyniodd y radd mewn seremoni yn Theatr y Sheldonian, ar 9fed o Fawrth.
...i Carys Mair Jones ar ennill Gradd BA dosbarth cyntaf mewn Cymdeithaseg ac Astudiaethau Plant.

...i Mared Lois Williams, ar ennill gradd BSc mewn Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu. Pob dymuniad da iddi wrth iddi ddechrau ar swydd fel Radiograffydd yn Ysbyty'r Brifysgol.

**Cydymdeimlwn â...**

...Mair Emrys Evans, Arwel ac Eleri Williams yn sgil marwolaeth ei chwaer-yng-nghyfraith Mair ym Mhenybontfawr.

...Arfon a Tudur Jones ar golli eu brawd-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

**Cleifion**

Mae nifer o'n haelodau wedi derbyn triniaethau yn yr ysbyty yn ddiweddar a dymunwn yn dda iddynt wrth iddyn nhw ymgryfhau - Eira Jones, Seren Ann Jones, Delor Wedlake, Megan Ruddock Jones, Denver Thomas, Mair Hughes a Mary Lewis.

Cafodd Beti Wyn Davies gwymp cas yn ddiweddar ond mae nawr yn gwella.

**Cyngerdd**

Ar nos Wener 14eg o Fehefin cynhaliwyd cyngerdd i godi arian ar gyfer Apêl Madagascar. Hwn oedd ein gweithgaredd olaf i ddod â blwyddyn a hanner o godi arian i ben. Cymerwyd rhan gan Gôr Ysgol y Wern, Côr Caerdydd, unawdwyr lleisiol ac offerynnol, ac ensemble lleisiol Bro Taf. Noson werth chweil gyda'r capel yn gyffyrddus lawn. Y newydd da ydy fod oddeutu £1500 wedi'i godi i'w ychwanegu at gyfanswm terfynol ein hymdrech fel eglwys. Diolch i swyddogion ac aelodau Eglwys Bethany, Rhiwbina am agor eu drysau i ni.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Llongyfarchiadau i bob un o'n hieuenctid a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau gradd y tymor yma. Rydym yn falch ohonoch i gyd. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Rydym yn falch o ddeall bod Adelina Evans yn gwella wedi'r driniaeth yn ddiweddar. Rydym yn edrych ymlaen at ei chroesawu hi a Huw yn ôl i'n plith yn fuan.

**Y Gymdeithas**

Cynhaliwyd Te Mefus, o dan nawdd y Gymdeithas, yng nghartref Arthur a Diana Evans yn yr Eglwys Newydd. Roedd y tywydd o'n plaid a chafwyd prynhawn hyfryd yng nghwmni cyfeillion. Diolch i aelodau'r pwyllgor am y trefniadau ac i Arthur a Diana am agor eu cartref. Roedd yr elw yn mynd tuag at Gronfa'r Eglwys.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Cafwyd dwy noson o chwerthin iach gyda pherfformiad y Gymdeithas Ddrama o ddwy ddrama fer, sef *Yr Arth*, cyfieithiad Hudson Williams o *The Bear* gan Anton Chekhof, a *Yr Ymarfer*, addasiad Anthony Evans o *Y Practis* gan Leyshon Williams. Cyfarwyddwyd gan Medi Evans, Betsan Evans ac Anthony Evans. Diolch i aelodau'r Gymdeithas Ddrama am eu gwaith. Byddai'r Gymdeithas yn falch o groesawu aelodau newydd a bydd croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y ddrama i ddod i Theatr y Crwys bob nos Fercher am 7.30 o'r gloch.

**Yr Ysgol Sul**

I'r Lido ym Mhontypridd yr aeth y trip Ysgol Sul eleni ac ymunodd aelodau'r Gymdeithas â hwy yn y picnic cyn mynd ar daith o amgylch Parc Angharad. Diolch i bawb a fu ynglŷn â'r trefniadau.

**Awst/Medi**

Bydd Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn cyd-addoli yn ystod mis Awst (gweler gwaelod td. 16).

Byddwn yn ôl yn Y Crwys ym mis Medi ac mae croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni yn ein gwasanaethau. Y Gweinidog fydd yn ein harwain ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul o'r mis; y Parch Gwyn Rhydderch ar Fedi'r 8fed; Mr William Tiplady bore'r 13eg a byddwn yn ymuno gyda'n cyfeillion yn Minny St. yn oedfa'r hwyr. Ar Fedi'r 22ain byddwn yn croesawu'r Parchg Lona Roberts a'r Parchg Glyn Tudwal Jones ar y 29ain.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis bu cyfle i groesawu'r Parchg Robert Griffiths, Mr Gwyndaf Roberts, a Mr Marc Williams i'r pulpud ac ar Fehefin 9 ein gweinidog y Parchg Evan Morgan oedd yn arwain y gwasanaeth a'r cymun.

Ar Sul olaf y mis bydd Evan yn arwain gwasanaeth bedyddio Jac Tomos Francis, mab Sian a Trystan Francis a brawd bach Mimi.

Ar Fehefin 4 daeth Mrs Ann Mears atom i'n hudo gyda'i sgiliau trefnu blodau. Nid oedd yn ddiwrnod braf ond trwy harddwch y blodau ar y thema 'garddwest' hawdd oedd dychmygu bod yr haul yn gwenu.

Ar Fehefin 25 aeth nifer o aelodau i gymdeithasu ac i fwynhau pryd o fwyd blasus yn y Caffi Fach yn Rhiwbeina.

Ni chynhelir gwasanaethau ym Methel yn ystod mis Awst ond byddwn yn cwrdd eto ar Fedi 1af pan fydd y Parchg Aled Edwards yn arwain ein gwasanaeth.



*Côr Caerdydd yng nghyngerdd Ebeneser*

## BETHEL, PENARTH

Llongyfarchiadau a diolch i nifer o blant yr eglwys am gyfrannu at lwyddiant Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin eleni mewn amrywiol gystadlaethau. Da iawn chi: Gwri, Syfi, Esli, Alys (E), Alys (P), Iris, Medi, Moi a Llinos Haf.

Llawenydd digymysg, ac nid bychan o syndod, i ni yn oedfa hwyr Mehefin 16 oedd cael cwmni Howard a Betsan, gan ei fod yntau newydd dderbyn llawdriniaeth ddifrifol. Roedd bwrlwm personoliaeth Howard fel arfer. Cyflwynwn ein dymuniadau gorau i'r ddau yn y cyfnod nesaf o ôl-driniaeth.

Yn oedfa'r bore ar Fehefin 3 cawsom ein tywys gan y Barchedig Catrin Roberts. Seiliodd ei chenadwri ar Josua 20 (yn benodol y cyfeiriad at ddinasoedd noddfa) a Hebreaid 6 (addewid sicr Duw yn Iesu).

Ar Sul y Pentecost cafwyd cyflwyniad gweledol, trawiadol gan ein gweinidog, nid yn lleiaf y darnau papur ymfflamychol. Byrdwn y neges oedd nad fflachiad byrdymor yw'r gwahoddiad i ddilyn Iesu, ond ymrwymiad hirdymor gyda gwres sy'n para.

Purion o beth oedd y cyfle i ni groesawu am y tro cyntaf ar Fehefin 16 yr hanesydd Dr Elin Jones. Pwysleisiwyd y rhinweddau Cristionogol sy'n amlygu Cariad, Craig a Chraidd ein Ffydd. Roedd clywed am brofiadau personol yn cyffwrdd.

## TABERNACL, YR AIS

**Priodas**

Llongyfarchwn Manon George a Rhys ab Owen ar eu priodas ddiwedd mis Mai yng Nghricieth. Gweinyddwyd y briodas gan ein gweinidog gyda Robert Nicholls yn darllen a Marc Jon Williams wrth yr organ. Bu'n ddiwrnod llawen gyda nifer o gyfeillion Caerdydd yn bresennol. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

**Anrhydeddau'r Orsedd**

Yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst eleni, bydd dau o organyddion y Tabernacl yn cael eu hanrhydeddu. Bydd Huw Thomas yn cael ei gydnabod am ystod eang o gyfraniadau ym maes addysg, ac yn arbennig wrth hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod Euros Rhys Evans yn cael ei gydnabod am ei gyfraniadau amrywiol a sylweddol mewn diwylliant cerddorol o bob math.

**Gwasanaeth gan Aelodau o Fro Morgannwg**

Ar fore Ddydd Sul y 23ain o Fehefin, diwrnod Hirddydd Haf, cynhaliwyd gwasanaeth a drefnwyd gan aelodau'r eglwys sydd yn byw ym Mro Morgannwg. Bwriad yr oedfa oedd tynnu sylw at sut mae'r Haf yn dangos gogoniant Duw i ni fel aelodau'r Tabernacl.

**Eisteddfod yr Urdd**

Roedd yn hyfryd gweld cynifer o blant a phobl ifanc y Tabernacl yn cyfrannu i fwrlwm y digwyddiadau. Cafodd pobl ifanc Caerdydd brofiadau arbennig a gallwn ymfalchïo ynddynt. Roedd sioe'r ysgolion cynradd *Troi Heddiw yn Ddoe* yn arbennig iawn, gyda nifer o blant y Tabernacl ar y llwyfan. Nodwn yn arbennig gyfraniad Hannah Edwards yn chwarae rhan y prif gymeriad mewn modd mor broffesiynol.

**Prif ferch Glantaf 2019-2020**

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Ffion Rees ar gael ei dewis i fod yn brif-ferch Ysgol Gyfun Glantaf yn y flwyddyn academaidd nesaf. Mae ganddi lawer o ddoniau sy'n ei gwneud yn berson addas i'r cyfrifoldebau hyn. Mae'n ferch ddidwyll a chadarn ei gwerthoedd, yn bersonoliaeth addfwyn ac yn hapus i wrando ac i arwain.

## YR EGLWYS GATHOLIG

Cynhaliwyd Offeren arbennig yn yr Eglwys Gadeiriol yn Heol Siarl ddydd Sadwrn Mehefin 15fed. Roedd y Cylch Catholig yn cwrdd mewn cyfarfod undydd a daeth y cyfarfod i ben gyda'r Offeren ganol y prynhawn.

Yr Esgob Emeritws Edwin Regan oedd yn llywyddu, gyda'r Parchedig Ddiacon Elfed Jones yn cynorthwyo. Pregeth syml oedd gan yr Esgob - sef Gweddi Iesu o'r traddodiad Dwyreiniol. Dysgodd i'r gynulleidfa sut i ddweud geiriau'r weddi fer yma: 'Arglwydd Iesu, Fab Duw, trugarha wrthyf, bechadur' gan anadlu mewn ac allan ddwywaith. A chawsom ein hannog i'w hadrodd drosodd a thro wrth fynd o gwmpas ein bywyd bob dydd. Mae neges mor syml ond mor ddwys yn aros yn y cof am amser maith! Iesu fel cydymaith a'n gweddi gyson ar y Tad yn nerth yr Ysbryd Glân - dyma oedd neges yr Esgob ar benwythnos Sul y Drindod.

Mae'r Cylch Catholig yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn i gefnogi



Catholigion Cymraeg eu hiaith ac i geisio hybu defnydd y Gymraeg yn yr Eglwys.

Yn esgobaeth Caerdydd cynhelir Offeren yn Gymraeg ar Sul olaf pob mis yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd, CF14 1AD am 4.30 y prynhawn. Mae croeso cynnes i bawb.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Beryl Williams ar ennill cadair Eisteddfod Llandudoch, am ei cherdd yn dwyn y teitl 'Yr Ogof'. Beirniaid y gystadleuaeth oedd Gruffudd Owen, bardd cadeiriol Eisteddfod Caerdydd y llynedd a Bardd Plant Cymru.

**Priodasau**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Dewi ac Angharad Alter ar eu priodas ddiweddar. Dymunwn yn dda iawn hefyd i Gerwyn ac Abbie, a Daniel a Ffion wrth iddynt briodi ar yr un diwrnod y mis hwn, un cwpwl yng Nghaeredin a'r llall yng ngogledd Cymru.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Rhian a Llion Evans ar farwolaeth mam-gu Rhian yng ngogledd Lloegr.

**Pregethau'r Sul**

Ar hyn o bryd mae Emyr James yn pregethu cyfres o bregethau ar lyfr y Datguddiad yn y bore a llyfr Exodus yn y nos. Mae modd gwrando ar y pregethau hyn wrth fynd i wefan yr eglwys: www.cwmpawd.org

## EGLWYS DEWI SANT

**Taith Gerdded Cytûn Dinas Caerdydd a'r Bae**

Dydd Sadwrn 1af o fis Mehefin, ymunodd rhai o Eglwys Dewi Sant â thaith gerdded ddiddorol Cytûn o amgylch eglwysi'r ddinas.

**Y Sulgwyn**

Yn y Gwasanaeth Teuluol i holl deulu'r Eglwys ar y 9fed o Fai, dathlwyd pen-blwydd yr Eglwys Gristnogol. Roedd y ficer wedi paratoi amlen barti pen-blwydd lliwgar i bob plentyn ei hagor yn cynnwys symbolau i gynrychioli neges y Sulgwyn.

**Enwi'r tedi bêr**

Cawsom gystadleuaeth enwi'r tedi bêr llond ei got a roddwyd gan Ann Wyn Jones. Yr un a ddyfalodd yr enw cywir - sef Nedw - oedd Mair Matthews a chaiff yr arian ei ddefnyddio tuag at wella cyfleusterau'r eglwys.

**Llongyfarchiadau**

...a phob dymuniad da i Ceri a Nick Edwards ar enedigaeth eu mab bach, Steffan Elis.

**Coffi a Chlonc**

Roedd y sesiwn Coffi a Chlonc unwaith eto yn hwyl ac yn fuddiol i bawb a ddaeth. Bydd yr un nesaf fore Sadwrn yr 20fed o Orffennaf rhwng 10:30 a 12:00. Croeso cynnes.

**Dillad i'r Digartref**

Casglwyd llond car o ddillad ar gyfer y digartref. Syniad Judith Poulson oedd y casglu a hi aeth â nhw i Ganolfan Huggard.

**Parti i blant yr Ysgol Sul**

Cafodd plant yr Ysgol Sul hwyl yn y Parti pnawn Sadwrn 15fed o Fehefin yn paentio, bwyta pizza ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Liz Harewood fu'n cydlynu'r cyfan.

## MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchg Owain Llyr Evans

Ar ran Undeb yr Annibynwyr, mynychodd ein Gweinidog a Connor Evans Gynhadledd Ewropeaidd Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang yn Utrecht, Yr Iseldiroedd (16-19 Mehefin). Cyn iddynt fynd, yn dilyn Oedfa Foreol Gynnar 9 Mehefin, bu cyfle i ddymuno Pen-blwydd Hapus yn 50 oed i'r Gweinidog. Roedd y digwyddiad yn syrpreis llwyr, nid yn unig i Owain Llyr, ond i drwch y gynulleidfa hefyd! Darllenwyd englyn o waith Aled Gwyn a chyflwynwyd rhodd i'r Gweinidog ar ran aelodau'r eglwys. Roedd yno deisen ysblennydd hefyd i nodi'r achlysur!

Mae croeso i bawb – 'o'r ieuengaf i'r hynaf' – i'n hoedfaon ar y Sul (10.30 a 18.00). Y Gweinidog fydd yn arwain ein hoedfaon ar Sul cyntaf a thrydydd Sul mis Gorffennaf ac yn yr hwyr ar y 14eg. Bydd Cymundeb 7 Gorffennaf yn yr hwyr ac ar fore 14 Gorffennaf, byddwn yn cydaddoli ag aelodau eglwysi Cyfundeb Dwyrain Morgannwg ym Mynydd Seion, Casnewydd. 'Y mae'r gair yn agos iawn atat' (Deut. 30:14) fydd thema Oedfa Sul y Cyfundeb. Cawn y pleser o groesawu'r Parchedig Jill Hailey-Harris (Llywydd Undeb yr Annibynwyr) i arwain yr addoliad ddydd Sul, 28 Gorffennaf. Bydd Ysgol Sul ar 7 Gorffennaf. Yn ystod mis Awst byddwn yn cydaddoli ag aelodau eglwysi Cymraeg eraill y brifddinas. Yn methu dod i'r oedfaon? Ymunwch â ni drwy gyfrwng negeseuon trydar @MinnyStreet #AddolwnEf (ar Suliau'r Gweinidog). Yn dechrau toc wedi 10:30/18:00.

Cynhelir cyfarfod olaf PIMS dros yr haf nos Lun 8 Gorffennaf. Bydd cyfle i fwynhau Koinonia (10 Gorffennaf am 12.00, 21 Gorffennaf am 19.30) a bydd Babimini'n cwrdd fore Gwener, 19 Gorffennaf (9:45–11:15). Bydd cyfle hefyd i gyfrannu nwyddau at elusennau a phrynu nwyddau Masnach Deg yn ystod mis



*Owain Llyr a'i deulu*

## SALEM, TREGANNA

**Clwb Criced**

Cawsom sawl noson ddifyr yn ystod y mis gan chwarae ar Gae'r Esgob yn erbyn Staff Plasmawr a Mochyn Du/Gareth Bale XI. Nosweithiau cymdeithasol braf!

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau gwresog i'r Parchg Dafydd Owen a Brenda Owen wrth ddathlu eu priodas ddiemwnt yn ystod Mehefin. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

**Noson Cymdeithas y Beibl**

Cawsom Wasanaeth, Ffair a Noson Goffi Cymdeithas y Beibl llwyddiannus yn Salem nos Fercher 12 Mehefin.

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau i Adran Salem am berfformio mor dda yn yr eisteddfod. Pob un ohonoch wedi cael profiad gwych gan fwynhau'r cystadlu. Hyfryd oedd gweld cynifer o bobl ifanc Salem yn cymryd rhan ar y llwyfan yn ddyddiol yn cystadlu, yn cymryd rhan yn y seremonïau ac yn perfformio a helpu ar y maes. Gwych!

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddidwyll â Nia Roblin wrth golli ei mam yn ddiweddar, a meddyliwn amdanoch, Lynn, Dewi a Geraint yn eich profedigaeth. Cydymdeimlwn yn fawr â Carys Pithouse a'r teulu wrth golli ei thad yn ddiweddar, a meddyliwn amdanoch Siôn a Jo yn eich colled. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd at Dylan Hammond a'r teulu wrth golli ei fam, ac rydym yn meddwl amdanoch Betsan, Manon a Madog ar yr adeg anodd hwn.

## CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Am y tro cyntaf yn ein hanes bu CECC a phapur bro *Y Dinesydd* yn rhannu stondin yng Ngŵyl boblogaidd Tafwyl yn y Castell. Heidiodd y miloedd i mewn yn enwedig ar y dydd Sadwrn heulog a chynnes a diolch i bawb a alwodd heibio i'n gweld ac am ambell i sgwrs ddiddorol. Roedd yn drefniant digon hwylus gan fod nifer ohonom oedd ar ddyletswydd yn bobl yr eglwysi ac yn bobl *Y Dinesydd.*

**Suliau Undebol Awst**

Bydd croeso cynnes i ymwelwyr a phawb i ymuno yn yr oedfeuon hyn yn ystod mis Awst. Ar y 4ydd yn Y Crwys, Heol Richmond, 10.30 a 6, Parchg Evan Morgan, Bugail Salem a Bethel. 11eg yn Tabernacl Yr Ais, 10.30 a 6, Parchg Robert Nicholls, Llundain, 18fed yn Minny St. 10.30 a 6, Parchg Carwyn Sidall, Llanuwchllyn a 25ain, Eglwys Ebeneser, 10 yn CEN, Canolfan Yr Eglwys Newydd a 5.30 yn Eglwys y Ddinas, Parchedigion Ifan a Catrin Roberts.

# Gwylio'r Geiniog

*"A ydych yn rhy glyfar i gael eich scamio? "*



## Huw Roberts

A ydych yn rhy glyfar i gael eich scamio? Chi gyd siwr o fod yn meddwl "Wrth gwrs bo fi!", ond mae miloedd o unigolion deallus wedi cael eu twyllo gan un o'r canlynol:

A. "Helo yr wyf yn ffonio o'ch banc. A ydych wedi talu £600 am ffôn newydd?" "Na, dim fi." "Falch i glywed ond mae'n edrych fel bod eich cyfrif banc wedi ei hacio. Felly os hoffech newid eich rhif diogelwch dros y ffôn … ga i gadarnhau eich rhif banc …..". Peidiwch byth, byth â rhoi gwybodaeth am eich manylion banc dros y ffôn.

B. Mae rhai scamwyr wedi rhyng-gipio e-byst busnesau ac yn lle gwneud taliad ar-lein i'r cwmni iawn, mae'n nhw yn rhoi cyfrif banc anghywir ar beth sydd yn ymddanos fel anfoneb iawn. Digwyddodd hyn i newyddiadurwr gyda'r *Financial Times* – gelwir hyn yn *Push Payment fraud*.

C. Byddwch yn ofalus iawn os ydych yn archebu ticedi ar-lein am chwaraeon rhyngwladol / cyngherddau poblogaidd.

**Gofynnwch i Huw**:
Beth yw sefyllfa treth etifeddiaeth ar ISA? Gan fod ISA yn enw unigolyn mae hyn yn cael ei gyfrif o fewn ystad yr ymadawedig. Yn gyffredinol, rhaid wedyn gwerthu'r ISA gyda'r un eithriad lle y gellir ei drosglwyddo i'r cymar priod, ac mae hyn yn gynllun defnyddiol.
Os oes gennych gwestiwn cyffredinol ar gyfer y golofn, anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu trwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant.*

## Prif lenor yn cyffroi am nofel 'gyffrous, mentrus a chwbl unigryw' i'r arddegau

Disgrifiodd Manon Steffan Ros, awdures *Llyfr Glas Nebo*, nofel gyntaf Cynan Llwyd, fel un "rymus, ddinesig a wnaeth i mi ddal f'anadl o'r dechrau i'r diwedd."

*Tom* yw nofel gyntaf Cynan Llwyd, ac mae wedi cyhoeddi straeon byrion yn y gorffennol. Mae'r nofel yn llenwi bwlch am nofelau cyffrous i'r arddegau, gan ddilyn bachgen 15 oed wrth iddo geisio dygymod â'i fywyd ar ôl gweld digwyddiad erchyll gerllaw'r bloc o fflatiau lle mae'n byw – nofel sydd wedi cael ymateb gwych gan Manon Steffan Ros.

Mae *Tom* yn nofel 128 tudalen, yn gyffrous, yn hawdd i'w darllen ac yn adleisio arddull *The Curious Incident of the Dog in the Night-time* gan Mark Haddon.

Meddai Cynan Llwyd: "Rwyf wedi bod yn datblygu'r nofel yn araf bach ers rhai blynyddoedd bellach. Cyflwynais ychydig o benodau ar gyfer cystadleuaeth Ysgoloriaeth Mentora Emyr Feddyg tua 2014 ac yna cael cyfle i'w ddatblygu'n llawn a'i ysgrifennu ar gwrs ysgrifennu nofel yn Nhŷ Newydd yn 2018. Fy nghymhelliad oedd ysgrifennu nofel ddinesig i bobl yn eu harddegau gydag adeiladau, pobl a lleoliadau Grangetown, Caerdydd yn gefndir iddi."

Daw Cynan o ardal Aberystwyth yn wreiddiol ond mae bellach yn byw yn Grangetown, Caerdydd gyda'i wraig Rachel. Pan nad yw'n ysgrifennu mae'n darllen neu'n gwylio pêl-droed ac yn gweithio i Gymorth Cristnogol. Mae eisoes wedi cyhoeddi straeon byrion, ond dyma ei nofel gyntaf.

Fe ddaeth yr ysbrydoliaeth gan Rachel, athrawes mewn ysgol uwchradd.

"Roedd ei disgyblion yn gofyn iddi am nofelau dinesig Cymraeg, a'r dewis yn siomedig. Felly es ati i ysgrifennu un! Rwy'n teimlo nad oes llawer o nofelau i bobl yn eu harddegau yn y Gymraeg yn darlunio'r Cymry amlddiwylliannol ac *urban* yr wyf i, a llawer o bobl yn eu harddegau sy'n medru'r Gymraeg, yn byw ynddi. Am wn i, yn hynny o beth, mae'r nofel yn unigryw," meddai Cynan, cyn ychwanegu: "Mae'n anhygoel cael gwireddu breuddwyd. Mae gen i lawer o syniadau eraill yn fy mhen, ond mae angen eu rhoi lawr ar bapur!"

**Mae *Tom* gan Cynan Llwyd ar gael nawr (£5.99, Y Lolfa).**

## Urdd Gobaith Cymru 1922-2022 : Cyfrol yn casglu'r archif o atgofion a lluniau

**Oes gennych chi gyfraniad?**

Mae cyfrol helaeth, yn cynnwys llawer o luniau ac atgofion, ar y gweill i ddathlu canrif Urdd Gobaith Cymru 1922-2022. Croesewir pob atgof/llun/archif at y prosiect hwn - yn rhodd i'r Urdd neu yn fenthyciad. Mae swyddfeydd gwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd yn barod i'w derbyn (neu drwy e-bost archif@urdd.org. Eisoes mae trysorau o flynyddoedd cynnar y mudiad wedi dod i'r fei. Ond peidiwch ag anghofio bod angen hanes y blynyddoedd diweddaraf yn ogystal!

Edrychwn ymlaen at gael rhannu'r cyfan.
*Myrddin ap Dafydd* (golygydd y gyfrol)

# Pobol y Rhigwm

Y dasg yn rhifyn Mehefin (tasg 23), oedd llunio cwpled caeth neu englyn sy'n cynnwys y gair 'Tafwyl'. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond dyma'r rhai a aeth â sylw'r beirniad. Mae'n amlwg fod llewyrch ar ddosbarthiadau cerdd dafod y ddinas, gan fod rhai o'r cynigion yn gywir.

Tafolwn eto'n Tafwyl
"I ni mae'n fwy na Gŵyl."
**Gwern**

Mae'r gynghanedd yn feius gan Gwern; i gynganeddu 'Tafwyl', mae angen 'f' dan yr acen, ond 'l' sy dan yr acen yn y gair 'Tafolwn'. Byddai 'Tafolwn ein Tafwyliau' yn gywir. Mae'r ail linell yn chwesill.

Caed maen ddoe i'w cadw ma's o gaer oer
Gan un gŵr uchéldras.
Heddiw gwreng yn rheng ar ras,
Dan haul, sy'n hawlio'u dinas.
**Ifor**

Da iawn am weithio englyn, ac mae'r llinell gyntaf a'r drydedd yn gryf eu cynghanedd. Fodd bynnag, mae'r aceniad rhwng y cyrch a'r ail yn anghywir, a'r llinell olaf. Dylai'r orffwysfa (y saib) ynghanol y gynghanedd gyd-daro â saib naturiol y frawddeg. Trueni am hynny; syniad da oedd cysylltu'r Ŵyl gyfoes â hanes y castell lle bu Ifor Bach yn ymladd y Saeson.

Hi'r *queen*, peilliwr prifddinas – hi Tafwyl
Yn tyfu cymdeithas;
Mae mwy a mwy yn dod ma's
Ag arddel magu urddas.
**Gwenynen Taf**

Mae Gwenynen Taf wedi cael syniad trawiadol – fod Tafwyl yn y brifddinas yn debyg i frenhines mewn cwch gwenyn. Mae'r gynghanedd yn gywir, ond mae'r esgyll (ail hanner yr englyn) fel pe bai'n perthyn i englyn arall, heb gysylltu â'r ddelwedd wreiddiol. Mae lled-gyfeiriad at ymgyrch 'ma's ar y maes' yn yr ail hanner, ond nid yw'n glir beth mae'r englyn yn ceisio'i ddweud.

Mae nifer o gwpledi cadarnach gan **Y Fesen**, a'r rhain sy'n dod i'r brig.

Y rhai a dyf o'r Dafwyl,
Trwy'u hoes a gofiant yr hwyl.
**Y Fesen**

Eto hafan ein Tafwyl
Rydd yn hael ruddin ei hwyl.
**Y Fesen**

Mae'r llinell gyntaf 'Y rhai a dyf o'r Dafwyl' yn bendrom, ond mae'r gweddill yn iawn. Y gorau y tro hwn yw'r cwpled uniongyrchol a di-lol yma:

Yn sŵn iaith a seiniau hwyl,
Tyfu, tyfu mae'n Tafwyl.
**Y Fesen**

Byddai'n gwneud arwyddair da i'r Ŵyl lewyrchus hon sy'n mynd o nerth i nerth. Da iawn, Y Fesen.

**Enillydd tasg rhif 23 yw**
**John Emyr**

Y dasg ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf/Awst (tasg 24) yw limrig yn cynnwys y llinell:

**Fe ddarfu yr haf unwaith eto**.

Gan fod hwn yn rhifyn dwbl, Gorffennaf/Awst, fe'ch gwahoddir i anfon eich cynigion at db.james@ntlworld.com erbyn **18 Awst** 2019.

Cyhoeddir y feirniadaeth yn rhifyn mis Medi, ynghyd â thasg 25.

**Emyr Davies**

## Gwylwyr yn gallu creu sianel bersonol eu hunain ar S4C Clic

Mae datblygiadau newydd ar S4C Clic yn golygu bod modd i ddefnyddwyr greu sianel bersonol eu hunain.

Yn rhan o'r datblygiadau bydd modd i ddefnyddwyr greu proffiliau ar gyfer y teulu, greu rhestr bersonol o raglenni a pharhau i wylio rhaglen o'r un man.

Bydd gofyn i ddefnyddwyr gofrestru er mwyn defnyddio adnoddau S4C Clic. Bydd unrhyw un a fydd yn cofrestru rhwng 27 Mai i 10 Awst yn cael y cyfle i ennill Teledu Clyfar Sgrîn Lydan 49". Dim ond unwaith sydd angen cofrestru ac mae'n cymryd munud neu ddwy yn unig.




Dros y misoedd diwethaf mae S4C wedi rhyddhau nifer o gyfresi Bocs Set ar S4C Clic. Mae'r cyfresi wedi profi i fod yn hynod llwyddiannus gyda nifer o glasuron fel Con Passionate, Y Gwyll a 35 Diwrnod yn dod i'r brig. Mae nifer o hen gyfresi hefyd fel Nyth Cacwn a Tair Chwaer wedi dal dychymyg a chreu atgofion i'n gwylwyr.

# Dyddiadur Deurodiwr Dŵad

Beiciwr bach diniwad yn dŵad nôl o dro i dro, i droedio, neu a deud y gwir, i ddeurodio hen lwybra a gweld be di be yn rhen Ga'rdydd ma.

## "Ar dy feic!"

Troi'r beic i'r chwith wnes i'n gynnar rhyw fore Llun, rôl croesi'n gyntaf Erddi Pontcanna a phont sigledig y Gored Ddu, gan fentro dilyn Llwybr Taf tua'r gogledd. Waeth i mi fod ar yr M4, wir! Roedd llu o feicwyr yn dod tuag ata' i'n un fflyd, yn gwau trwy'i gilydd a drysu dyn â'u goddiweddyd gorffwyll. Y cwbl ohonynt 'di anghofio pob cwrteisi a chîp-lefft yn eu hawydd i gyrraedd canol dre cyn 9. Fasa hi 'di bod fymryn bach yn saffach taswn i'n mynd 'run ffor ag aelodau'r *peloton*, ond o fynd y ffor 'ma doedd gen i'm gobaith.






tristwch Maes-y-llech

Roedd holl rychwant deurodura yno - o rychwyr-mewn-leicra yn dyrnu mynd ar feic rasio Pinarello posh; bois y beiciau mynydd teiars-tew (ar darmac llyfn a gwastad!); a gwragedd yn reidio'n sidêt ar feic *sit-up-and-beg* gyda basgiad â bag-llaw ynddi ar y bar blaen. Diolch byth, roedd yn rhy gynnar i'r sdiwdants ar eu beiciau rhydlyd-rhag-cael-eu-dwyn. "Gwylia dy hun," medda fi wrth ryw lembo gwirion oedd yn 'nelu syth ata'i, cyn iddo wyro mymryn a gwasgu rhyngdda i a pholyn arwydd Sustrans. Chlywodd o ddim ohona i - roedd ei glustffonau bach gwynion wedi'u gludo i'w glustiau a golwg wag yn ei lygaid, druan ohono! Siŵr ei fod o'n gwrando ar bodlediad 'Y Dihangiad' yn trafod y *Tour de France*, neu Raglen Dylan Jones, efallai - y ddau'n ddigon i beri dyn i reidio fel y cyth.

Roeddwn mewn byd o baniers, sachau cefn, a chwriyr-bags; byd o gapiau-slap, siacedi hei-fîs, a goleuadau'n wincian; byd o grensian gêrs, gwichian brêcs, clychau'n tincian, ac ambell floedd. Pawb, ond fi, mewn un llif o feiciau – llif cyflymach o lawer na llif afon Taf wrth ein hochra. Ond o leia' llif a oedd yn symud. Tra gerllaw roedd Sarn y Fid Foel (North Road i chi!) yn un dagfa, fel neidr hir, lonydd gyda'i phen yn ganol dre ac yn 'mestyn nôl heibio cyffordd fawr Mynachdy â'i chynffon ar yr A470 tua'r gogledd yn ……… Abercynon?

'Sna'm rhyfadd bod nhw'n galw hon yn *Taff Trail* - er fasa *Taff trial* yn fwy addas. Mae'r acronym *TT* yn dweud y cwbl, yn creu darluniau yn y meddwl o dîm Sky yn gwibio mynd un rôl llall yn erbyn y cloc dan arweiniad y Brit enwog Jyrr-AINT Thomas. Neu, i'r rhai hŷn, ddarluniau o rasus motobeic Eil-o-Man a Robin Jac, y Fellten Goch, yn rhychu lonydd troellog y *Snaefell mountain route*.

Fel rheol, dwi'n cyfarch beicwyr eraill a ddônt heibio; fawr o ddiben unrhyw "fore da" siriol heddiw a hwnnw'n hongian yn y gwynt llychlyd a godai'n gwmwl y tu ôl i bob reidiwr. Trwyn ar y bar a chanolbwyntio fel diawl amdani, felly. Ond wedi i mi frwydro fel eog llipa yn erbyn y llif, mi laciodd pethau tua Tongwynlais. Diolch byth nad oedd rhaid i mi groesi Cored Radur â'i lwybr pysgod.

Ond fel 'na mae hi ar y *Cycle Superhighways* 'ma. Am enw! Un sy'n rhoi'r argraff eu bod yn 'lonydd mynd fel slecs', nid 'lonydd linc-di-lonc' fel dwi eu hangen, neu 'lwybrau malwod' (pan dwi 'di blino). O'i Ŵgl-gyfieithu unwaith, cefais 'Uwch-faes seiclo'. Dro arall, 'Briffordd beicio' (sic); wedyn 'Trafford feicio'. A does gan Porth Termau Cenedlaethol Cymru a Corpws Cyfochrog Cofnod y Cynulliad ddim clem be ydi'r term hyd y gwela i. Tydyn nhw fawr o feicwyr, felly!

Serch hynny, braf ydi gweld mwy o gyfleon i ni ddeurodio yng Nghaerdydd. Dwi heb fod yn BeicNesa ar y beiciau llogi newydd eto - wedi'r cwbl, rhaid i mi ystyried fy strît-cred. Ond pob clod i Gyngor Caerdydd a'r Cyng. Caro Wild (ydi o'n feiciwr gofalus neu'n rychwr gwyllt, tybed?) am eu hymdrechion i hybu beicio a gwella'r cyfleusterau. Eisoes cyhoeddwyd bwriad i greu pedair 'Beicffordd' o gyrion y ddinas tua'i chanol. Tybed pa mor effeithiol fydd yr un o Blas-dŵr a'i 7,000 o dai newydd wrth leihau tagfeydd ceir Ffordd Llantrisant? Mae Beti ac eraill yn brysur brotestio'n barod yn ochra Radur, yn ôl y sôn.

"*New roads create new traffic*" - gwireb sydd bellach yn dilorni'r syniad o leddfu problemau trafnidiaeth trwy adeiladu mwy o ffyrdd. Pa les, Alun bach, diddymu tollau Pontydd Hafren i hybu mwy o drafnidiaeth i geisio 'gorfodi' M4 ychwanegol i osgoi'r M4? Onid oes na bwysau ar gynghorau i leihau nifer y cerbydau ar y ffyrdd ac yn y dinasoedd trwy godi *congestion charge*, sef 'tâl atal tagu'? A mae dwy ystyr amlwg i'r gair tagu. A "brawd tagu yw mogi" yw hi i ni feicwyr. Ond o adeiladu mwy o ffyrdd beicio, a lleihau'r gofod i geir, daw mwy o bobl i feicio. "*Enable people*" yw neges Chris Boardman, Tsar Beicio Manceinion.

Beth bynnag, mi fydd y Metro yn ei le erbyn tua 2045, …. medda' nhw! Ynghanol y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau pwrpasol i'r tramiau, bysiau, beiciau a cherddwyr (be 'di rheiny?) efallai bydd 'na lonydd addas i mi â nghadair olwyn – un drydan, wrth reswm, neu i fy elor-ar-lwynion!

Oedais i fawr ddim ar fy siwrna hamddenol i Gastell Coch cyn ei throi hi am adra toc rôl cinio rhag i mi gael fy nghipio gan y llifeiriant ddiwedd pnawn. Doeddwn i ddim isio gweld pennawd yn *Wales Online* fory yn bloeddio *"Lost Cardiff Bay-bound cyclist last spotted in Merthyr Vale".*

**Olwyn ap Gron**

# Bwytai Merch y Ddinas



*“Ble mae’r hufen iâ gorau yn yr ardal?”*

Lowri Haf Cooke

**Tywydd Hufen Iâ**

Haf hapus i chi gyd-ddinasyddion! Do, fe ddaeth yr haul i wenu ar Gaerdydd. ’Dwn i ddim amdanoch chi, ond dwi’n laddar o chwys, yn byw ar bicnics a gazpacho a sbectols haul yn sownd ar fy nhrwyn! Gallech chi fentro, gydag enw canol fel Haf, fy mod i yn fy elfen ar hyn o bryd. A wyddoch chi beth? Byddech chi’n llygad eich lle! A diolch i albwm newydd sbon danlli Carwyn Ellis & Rio 18, mae’r gân *berffaith* yn sownd yn fy mhen.

Dychmygwch y cerddorion Sergio Mendes a João Giberto yn glanio mewn cwch rhwyfo ar Lyn y Rhath a chyfansoddi anthem soniarus rywle rhwng samba a *bossa nova* yn deyrnged lawen i ddiwrnod mor braf. Dyna i chi’r gân ‘*Tywydd Hufen Iâ’* gan Carwyn Ellis & Rio 18 i’r dim, sy’n ddathliad o hapusrwydd yr haf. Ond pe bai’r ddau o Frasil wir yn glanio yng Nghaerdydd, lle fyddai’r lle gorau i’w cyfeirio am hufen iâ yng Nghaerdydd?




Pe baent awydd flas o’r clasur - y ‘99 Flake’ – gallwn eu cyfeirio’n syth at fan Mister Softee ger mynedfa’r parc, gan obeithio fod ganddynt £2 yr un! Neu, ar ochr arall y goleudy, ceir stondin hufen iâ Marshfield Farm... er nid blas o Gaerdydd fyddai hwnnw, ond hufen gwartheg fferm Marshfield ger Caerfaddon. Er mwyn dyn, Gyngor Caerdydd, does dim synnwyr yn y peth!

Nawr, pe bai’r ddau wedi glanio ’nol ym 1958 - blwyddyn llwyddiant mawr Brasil yng Nghwpan (pêl droed) y Byd - bydden i wedi eu cyfeirio nhw’n syth i rif 1 Heol Albany, safle siop ‘Savers’ erbyn hyn. Dyna ble safodd gwmni Hufenfa Parc y Rhath, yn cynhyrchu hufen iâ o laeth ffermydd dwyreiniol y ddinas, o Laneirwg a Thredelerch. Ceir llun du a gwyn o’r hufenfa - a’r siop groser drws nesaf - gyda’r geiriau ‘ Unexcelled For Milk & Cream’ ar y faner uwchlaw. Gwaetha’r modd, ar ôl ei sefydlu nôl ym 1888 gan Frederick Green, caewyd y cwmni ar ddiwedd 1958. Ond wyddoch chi beth - ailsefydlwyd y cwmni teuluol yn 2016 gan or-or-wyres Mr Green, ar ffurf gelateria Green & Jenks, yn Nhrefynwy o bob man!

Ymysg cwmnïoedd lleol eraill a gaewyd dros y blynyddoedd y mae Thayers, Heol Wellfield, a brynwyd gan gwmni Loseley ar droad y Nawdegau, ac a newidiodd y rysáit. Rwy’n dal i gofio’r wefr o archebu côn o ‘dairy’ neu ‘banana toffee’ yn y Gymraeg, gan y rheolwr hawddgar Mr Davies. Ro’n i’n pasio’r hen siop yn ddiweddar, pan sylwais ar ddatblygiad newydd ar y safle. Roedd cwmni dylunio cartrefi Charles James ar ganol symud i mewn, ac ar fin cuddio’r hen deils trawiadol o’r cywion ieir. Pan bwyntiais i allan fod teils gwreiddiol, trawiadol y Rhath ymysg nodweddion mwyaf atyniadol cartrefi’r ardal, gwnaeth y cwmni dylunio dro pedol, diolch byth, ac uwcholeuo’r teils! Hwre am fach o synnwyr cyffredin! Galwch heibio, Thayers-alarwyr, i brofi chwa o nostalgia - er nad oes caniau o *shandy* i’w canfod mwyach ar y silffoedd, gwaetha’r modd!

Trist hefyd oedd gweld siop Mr Creemy ar Deras Cathays yn cau ar droad y Mileniwm. Er o Bencraig, y Rhondda, yn wreiddiol, safodd y siop ddinesig am ddegawdau lawer - ond peidiwch â digalonni, mae’r hufen iâ ar ei ‘newydd’ wedd, Sub Zero, ar gael yng Nghanolfan y Mileniwm, ynghyd ag archfarchnadoedd niferus! Yn bersonol, rwy’n ffafrio blas rhosyn y Turkish Delight... neu’r blas hufen clasurol, gwreiddiol.


Nid nepell i ffwrdd mae gerddi Parc Bute, a chaffi hyfryd y Secret Garden. Yno – yn fy marn i - mae’r hufen iâ caramel hallt gorau’r byd, sef Conti’s o Lanbedr Pont Steffan! Yn rhyfedd ddigon, clywais mai yno, tra’n crwydro gerddi Bute, yr ysbrydolwyd Carwyn Ellis gan yr awen ar gyfer ei anthem hafaidd, wrth glywed dau ogleddwr yn canmol y ‘tywydd hufen iâ’! O’r fan honno, byddwn yn annog y cerddorion o Frasil i hwylio ar hyd y Taf lawr at forglawdd Bae Caerdydd. Draw ar bier Penarth, gweinir hufen iâ Mario’s o Cross Hands – a dyna sydd hefyd ar gael ym mharlwr hufen iâ Sain Ffagan, drws nesaf i Siop Gwalia. ’Nol yn y Bae, mae Cadwalader’s – y gorau o Gricieth - yn hawlio parlwr hufen iâ mawreddog. Yn boblogaidd â’r plant y mae blas ‘uncorn’ – coeliwch neu beidio – sef croesbeilliad o *tutti frutti* a *bubblegum*!


Erbyn meddwl, efallai mai’r blas coffi byddai wrth fodd y cerddorion o Frasil... rhaid dweud y bues i bron a thagu wrth flasu’r bybl gym glas yn Joe’s o Abertawe ar Heol Wellfield, Parc y Rhath; sôn am orddos o siwgwr, a’r blas mwyaf plastig i mi ei brofi erioed. Diolch byth am y ‘banana toffee’ a wnaeth yn iawn am hynny - er doedd dim cystadlu â f’atgofion melys o Thayers. Ond ’nol at y Brasiliaid, yn hiraethu am y ferch o Ipanema wrth i’r haul fachlud yn danbaid dros Fae Caerdydd. Fe’u cyflwynwn nhw i ysbryd y Prifardd T.H Parry-Williams, a gwahodd y tri i ystyried y Ferch ar Gei’r Forforwyn yn lle. Yn galw arnynt o’r cwch y byddai Carwyn Ellis & Rio 18, yn chwarae *hit* arall o albwm yr haf, *Duges y Dref*...

**Carwyn Ellis & Rio 18 – Joia!**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un**

## Rhif: 193



**Ar Draws**

6. Mae Lena yn dychwel yn rhan o'r llwyth diddiwedd yn y dref hon (7)
7. Tyrfa wedi eu dal yng nghenlli Awst (5)
9. Cael pryd cyn dechrau bwrlwm wythnos yn trafod arian (5)
10. 'Mawr yw Ef yn y nef
    Ar ----- ----- gadarn gref' (DJ) (2,5)
12. Och! Aeth i grafu am feistrolaeth (11)
14. A oes bedd unig i'r gwragedd hyn? (11)
18. Cuddia afon y lladdfa (7)
19. 'Tyner yw'r ----- heno – tros fawnog
    Trawsfynydd yn dringo' (RWP) (5)
21. A nawr mae'n troi'n wyllt (5)
22. 'Heddiw estyn yn ddistaw
    Mewn hedd hir am ----- ----- -----'(RWP) (2,2,3)

**I Lawr**

1. Nid y dyn mwyaf yn y sgrym (5)
2. Anturio i'r maes naturiol ar yn ail (6)
3. Cyfyngu'r carlwm i'r dyffryn (3)
4. Gwisg swyddogol Elvis fu'r sari ar yn ail! (6)
5. 'Deled dy deyrnas, ----- dy ewyllys ar y ddaear fel yn y nef' (Mathew) (7)
8. Trefi da yn troi'n ddiofal (7)
11. 'Cans o'th law y daw bob dydd
    Ein ----- a'n llawenydd' (WDW) (7)
13. 'Enfys Duw sy'n para i ddatgan
    Bydd ----- yn yr hwyr (EHE) (7)
15. Hwyrach bod y wraig ddim mor fawr (6)
16. Nid ar redeg mae ----- (6)
17. Brwydr y teulu am hances (5)
20. 'Iesu yw'r ----- mawr di-goll
    Drwy'r ddaear oll a'r nef' (C.W cyf) (3)

**Enillydd Croesair Rhif 191**
**Rhiannon Evans, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 191**

**Ar Draws:** 6. Chwynfan 7. Diddig 9. Gen 10. Mae Ef yno'n 12. Cydymdeimlo 15. Mugail, ni bydd 17. Mellten goch 19. Lol 21. Hidlo 22. Ganai yno

**I Lawr:** 1. Gwaed 2, Uno 3. Bara 4. Digywilydd 5. Disodli 8. Beudai 11. Cyfartalu 13. Ymlynu 14. Lluddedig 16. Gofyn 18. Olaf 20. Bad

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Medi, 2019
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

# Uwch Adran Caerdydd / Merched Plastaf

Llongyfarchiadau i Uwch Adran Caerdydd / Merched Plastaf ar gyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni mewn dwy gystadleuaeth, sef y Côr Gwerin Blwyddyn 13 ac Iau a'r Côr Cerdd Dant Blwyddyn 13 ac Iau. Roedd yn dipyn o gamp cyrraedd y Genedlaethol yn erbyn cymaint o ysgolion! Diolch yn fawr i Caryl a Bethan am arwain.

Rydym yn edrych ymlaen yn awr at y tymor nesaf a chyfle i ychwanegu at ein *repertoire* o ganeuon ar gyfer y dyfodol.



# CERDYN POST O ABERYSTWYTH

## Lowri Haf Cooke yn holi Siôn Jobbins

***Mae Siôn T. Jobbins, sy'n 51 oed, yn Swyddog Pwnc yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae e'n dad i Elliw, Gwenno ac Owain, ac yn byw yn Aberystwyth.***

**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?**

Cefais fy ngeni yn Zambia lle'r oedd fy rhieni'n dysgu am dair blynedd ond symud yn fabi i Wellwood, Llanedeyrn ac yna i Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd.




**Pryd a sut lanioch chi yn Aberystwyth a beth ydych chi'n ei wneud yno?**

Es i i'r Brifysgol yn Aberystwyth - doeddwn heb feddwl rhyw lawer am y peth, ond cofio Gareth Hall Williams yn dweud ei fod yn mwynhau yno a meddwl, "wel, mae Gareth Hall yn foi reit gall a normal, af i yno". Roedd hefyd yn wahanol i Gaerdydd neu ddinas maint tebyg i Gaerdydd - fel dywedodd fy nhad, "hyd yn oed os ti'n mynd i'r brifysgol mewn dinas, mewn gwirionedd, fel myfyriwr ti'n mynd i fyw mewn ardal maint Aberystwyth. Mewn ffordd mae stiwdants Caerdydd i gyd yn byw yn Cathays, sydd tua'r un maint ag Aberystwyth - dydy nhw byth yn mynd i Lanedern neu'r Eglwys Newydd."

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Aberystwyth a'r ardal...**

Dwi'n eitha ceidwadol - hoffi cerdded o fy nghartref yn Llanbadarn i mewn i ganol Aber (tua milltir o wâc) yna cael hufen iâ ar y Promenâd a mynd am baned yn un o'r caffis hyfryd sydd yn y dre, fel Agnelli's, a bwrw mewn i rywun ar hap. Y peth braf am Aberystwyth yw fod wastad pobl sy'n pasio trwy'r dref mewn cynhadledd neu aduniad neu rywbeth, felly rydych chi'n cwrdd â phobl o wahanol rannau o Gymru (a'r byd).

**Pa 3 lle yno y bydde chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r dre?**

Mae cwpwl o lefydd braf i gael bwyd yn Aberystwyth – sy'n safonol heb fod yn rhy ffurfiol ac yn Gymreig; bwytai Baravin, Medina, Pysgoty, a'r Llew Du yn Nhal-y-bont.

Mae Bwlch Nant yr Arian – ar ben Pumlumon ar yr A44 uwchben Aberystwyth yn ganolfan natur boblogaidd a gyda sawl opsiwn cerdded.

Mae cerdded o'r Harbwr ar hyd y Prom a lan Craig Glais (Consti) yn beth amlwg i'w wneud ond mae'n ymlaciol, golygfeydd gwych, a wastad cyfle i siarad gyda phobl ar hyd y daith.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yno?**

Efallai mae'r pryd bwyd gorau gefais i yn Baravin oedd gyda chyfaill i mi oedd yn mynd trwy dor-priodas. Cefais salad betys a chnau Ffrengig ac yna, fel prif gwrs, draenog môr, ffa a thatws *Dauphanoise*. Dyna oedd y tro cyntaf erioed i mi fwyta betys! Roedd arogl betys byddai'n nhad yn ei fwyta o'r jar wastad wedi codi pwys arna' i. Ond daeth y salad a'r betys a'r cnau Ffrengig ac roedd yn hyfryd - agoriad llygad. Ac roedd y draenog môr a'r prif gwrs yn hyfryd hefyd. Ond efallai mai awyrgylch hamddenol a hwyliog y lle a'r cyfle i weld, er gwaethaf helbulon personol fy nghyfaill fod bywyd yn mynd yn ei flaen a bod popeth ddim yn dywyll.

**Ble mae'r olygfa orau yno?**

Mae'r olygfa o ben Craig Glais yn wirioneddol ryfeddol mae rhywun yn gweld Pen Llŷn i'r gogledd a Sir Benfro i'r de fel breichiau yn cofleidio Bae Ceredigion.

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?**

Y teimlad o fod mewn dinas a'r egni. Dwi'n hoff o fynd adre – er, mae mwy fel gwyliau i mi, ac mae hynny'n braf hefyd.

## NEWYDDION YCHWANEGOL Y DINESYDD

Weithiau mae gormod o ddeunydd yn dod i law i'w gynnwys mewn rhifyn cyfredol. O ganlyniad mae'n rhaid cwtogi ar rai erthyglau. Mae'r cyfraniadau canlynol i'w gweld ar ein gwefan www.dinesydd.cymru - derbyn y Dr Robin Gwyndaf yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru (Yr Academi Genedlaethol: yn Dathlu Ysgolheictod a Gwasanaethu'r Genedl: FLSW), taith 'Heddwch yn y Ddinas' ar Ddydd Ewyllys Da, cystadleuwyr Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2019 a gwybodaeth am waith Cronfa Glyndwr.

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Clwb Cymric yn 50 oed!

### Pen-blwydd Hapus Clwb Cymric!



Ar nos Sadwrn yr 11eg o Fai, yn Stadiwm y Principality, dathlodd Clwb Cymric hanner can mlynedd ers ei sefydlu. Mynychodd dros 180 o chwaraewyr a ffrindiau sydd wedi ymwneud â'r clwb o'r cychwyn cyntaf hyd at heddiw, i fwynhau'r cyfle i adrodd straeon, hel atgofion a chymdeithasu gyda ffrindiau.

Dechreuodd y noson gyda gair o groeso gan Gadeirydd y clwb, Hywel Price; gyda neges drawiadol am sut mae teulu Clwb Cymric wedi esblygu yn y blynyddoedd diwethaf, sy'n cynnwys timau pêl-droed ieuenctid, tîm pêl-rwyd a hoci erbyn hyn. Yn wir, mae bathodyn y clwb yn cynrychioli gymaint mwy heddiw!

Roedd cyfle i glywed gan gynrychiolwyr Cymric, gan ddechrau gydag Elfed 'Wil' Williams, capten cyntaf yn hanes y clwb. Cyflwynwyd anrheg iddo gan gapten presennol y tîm cyntaf - braf oedd gweld cenedlaethau cynnar a chyfoes yn cyfarfod ac yn cydnabod ei gilydd. Yna, cyflwynodd Gareth Huws, Huw Davies a Mei Tomos am eu profiadau gyda'r clwb, straeon doniol a'r hyn sydd yn gwneud y clwb yn arbennig ac yn unigryw.

Achlysur nodweddiadol arall y noson oedd cydnabod holl waith Stuart Williams, rheolwr y tîm cyntaf, sydd yn rhoi'r gorau i'r swydd ar ôl blynyddoedd o ymroddiad. Derbyniodd Stuart y wobr urddasol - Tlws Carwyn. Diolchwn i Stuart Williams am ei waith, a dymunwn bob lwc iddo yn y dyfodol.

Wrth gwrs, ar ôl y digwyddiadau ffurfiol, roedd cyfle i fwynhau a dathlu. Ail ymgynnull aelodau o'r tîm, dawnsio a chwerthin oedd thema'r noson! Ond, yn bwysicach na hynny oedd gwerthfawrogi cwmni da, a gweld sut mae'r clwb Cymraeg wedi ffynnu dros y blynyddoedd.

Ymlaen at y 50 mlynedd nesaf!

*Osian Pritchard*

## Y DIGWYDDIADUR

### Gorffennaf

**Iau, 11 Gorffennaf**
Cyngerdd yr Haf, Ysgol Plasmawr. Catrin Finch, Lucy Gould a Zoe Smith ynghyd â rhai o gerddorion yr ysgol, yn Neuadd Ysgol Plasmawr am 6.30pm. Tocynnau: £10 i oedolion/ £6.00 i blant (ar gael o Swyddfa'r Ysgol: 029-2040-5499).

**Sul, 14 Gorffennaf**
Cyngerdd 'Dathlu 10' Côr Heol y March, yn cynnwys perfformiadau unigol a *première* arbennig o waith newydd gan y cyfansoddwr Brian Hughes. Yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru am 1.30pm. Cyfarwyddwr cerdd: Eleri Roberts. Cyflwynydd: Aled Huw. Unawdwyr: Manon Ogwen Parry (soprano), Rhydian Jenkins (tenor), Heledd Gwynant (offerynnydd taro). Tocynnau: £12 i oedolion/ £8 consesiynau (ar gael o'r swyddfa docynnau: 029-2039-1391).

**Sul, 14 Gorffennaf**
Cyngerdd Haf gan y delynores Elinor Bennett yn Acapela, Pentyrch, am 8.00pm. Manylion pellach: https://www.acapela.co.uk

**Sadwrn, 20 Gorffennaf**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.

**Sadwrn, 27 Gorffennaf**
Datganiad Organ gan Jane Watts yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 12.30pm. Mynediad am ddim. Casgliad tawel ar y diwedd

### Awst

**Sadwrn, 17 Awst**
Organathon yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, rhwng 10.30 a 1.30 o'r gloch.

**Sadwrn, 31 Awst**
Organathon yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, rhwng 11.00 a 2.00 o'r gloch.

### Medi

**Mercher, 11 Medi**
Noson gyntaf tymor newydd Merched y Wawr Bro Radur, yng Nghapel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur, am 7.30pm, yng nghwmni Parti'r Efail.

**Gwener, 27 Medi**
Clwb Canna yn cyflwyno Geraint Løvgreen yng Nghlwb Rhyddfrydol Treganna am 8.00pm.

**Sadwrn, 28 Medi**
Datganiad Organ gan Huw Tregelles Williams yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 12.30pm. Mynediad am ddim. Casgliad tawel ar y diwedd.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur**
**gweler manylion ar dud. 2**

# Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

Nid Cymru'n unig sydd wedi blasu llwyddiant y tymor hwn. Yn y cyfnod rhwng y Gamp Lawn a Chwpan y Byd dyma ddathlu blwyddyn anhygoel arall i Adran Iau Clwb Rygbi Cymry Caerdydd.

Mi gymerodd dros 35 o ferched a bechgyn dan 6 eu camau rygbi cyntaf gyda chyfle i chwarae ar gae enwog Parc yr Arfau yn un o'r uchafbwyntiau.

Boed law neu hindda roedd presenoldeb a sgiliau disglair gan y garfan dan 7, ac mae'r criw dan 8 yn ffrindiau agos sy'n ysu i osod y 'tags' i'r naill ochr a dechrau taclo. Fe ddangosodd y garfan dan 9 ymroddiad gwych wrth wneud hynny am y tro cyntaf y tymor hwn gan lorio pawb a phopeth.

Cipio teitl Tîm yr Ŵyl yn Y Bont-faen oedd y clo perffaith i ymgyrch dan 10 y Clwb, ac fe groesodd y sêr dan 11 am sawl cais gwefreiddiol.

Mae rhai o berfformiadau'r tîm dan 12 wedi eu cymharu â'r Barbariaid ar eu gorau. Wedi croesawu llwyth o chwaraewyr newydd y tymor hwn mae'r garfan dan 13 yn dangos addewid enfawr. Mynd o nerth i nerth oedd hanes y criw dan 14 hefyd.

Ond, heb os, llwyddiant mwya'r tymor yw bod tua 250 o fechgyn a merched ifanc mas ar Gaeau Pontcanna bob bore Sul yn mwynhau eu rygbi.

Ymhlith datblygiadau cyffrous eraill y tymor, fe gafodd yr Adran Iau grysau newydd. Mae'r Ddraig Goch fawr ar flaen y crys wedi codi ofn ar sawl tîm.

Rydyn ni hefyd wedi dechrau defnyddio'r Neuadd Sgowtiaid ym maes parcio Caeau Pontcanna i baratoi bwyd i'r plant. Bydd pawb sydd wedi eu magu'n chwarae rygbi yn gwybod am bwysigrwydd y cymdeithasu, ac mae'n braf gweld y timau a rhieni yn cymysgu dros gŵn poeth!

Clwb gydag ethos Cymraeg yw CRCC sy'n cynnal timau iau o bob oedran yn ogystal â charfan ieuenctid, timau dynion a merched. Mae croeso bob amser i chwaraewyr newydd. Cliciwch draw i clwbrygbi.com am rhagor o wybodaeth.

Doedd dim cuddio cyffro'r chwaraewyr, ac ambell fam, o weld Jonathan Davies yn ŵr gwadd ein diwrnod gwobrwyo ar ddechrau mis Mai. Diolch yn fawr iawn i ganolwr Cymru am ein cefnogi yn ystod cyfnod prysur o baratoi ar gyfer Cwpan y Byd. Bydd ysbryd, egni a brwdfrydedd yr Adran Iau wedi ei ysbrydoli i ddychwelyd o Siapan gyda Chwpan Webb Ellis.

Ymlaen!



*Tîm llwyddiannus CRCC*